CYNULLIAD CENEDLAETHOL CYMRU

OFFERYNNAU STATUDOL

2006 Rhif 2629 (Cy.225)

DIOGELU'R AMGYLCHEDD, CYMRU

Rheoliadau Sŵn Amgylcheddol (Cymru) 2006

NODYN ESBONIADOL

(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)

Mae'r Rheoliadau hyn yn gweithredu Cyfarwyddeb 2002/49/EC Senedd Ewrop a'r Cyngor dyddiedig 25 Mehefin 2002 sy'n ymwneud ag asesu a rheoli sŵn amgylcheddol (O.J. Rhif L189, 18.07.2002, t.12) (y 'Gyfarwyddeb').

Mae asesiad llawn o'r effaith a gaiff y Rheoliadau hyn ar gostau busnes ar gael (gweler y tabl isod).

Ac eithrio rheoliad 22(2), dim ond i ffynonellau sŵn yng Nghymru y mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys.

Mapiau sŵn strategol

Gwneir y mapiau sŵn strategol mewn dau gylch, y cyntaf yn 2007 a'r ail yn 2012. Yn yr ail gylch, bydd yn rhaid mapio nifer fwy o'r un math o ffynonellau sŵn nag a wneir yn y cylch cyntaf. Ar ôl hynny, bydd yn rhaid gwneud mapiau sŵn strategol bob pum mlynedd.

Mae rheoliad 3 yn ei gwneud yn ofynnol i Gynulliad Cenedlaethol Cymru (y Cynulliad) nodi'r ffynonellau sŵn y mae'n rhaid gwneud mapiau sŵn strategol ar eu cyfer. Mae Rheoliad 7 yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cynulliad wneud mapiau sŵn strategol ar gyfer crynodrefi, prif ffyrdd, prif reilffyrdd a phrif feysydd awyr a ddynodir o dan adran 80 at ddibenion adran 78 o Ddeddf Hedfan Sifil 1982 (1982 p.16). O bryd i'w gilydd, a pha bryd bynnag y bydd prif ddatblygiad yn digwydd, rhaid i'r Cynulliad adolygu mapiau sŵn strategol (a'u diwygio, os bydd angen).

NATIONAL ASSEMBLY FOR WALES

STATUTORY INSTRUMENTS

2006 No. 2629 (W.225)

ENVIRONMENTAL PROTECTION, WALES

The Environmental Noise (Wales) Regulations 2006

EXPLANATORY NOTE

(This note is not part of the Regulations)

These Regulations implement Directive 2002/49/EC of the European Parliament and of the Council of 25 June 2002 relating to the assessment and management of environmental noise (O.J. No. L 189, 18.07.2002, p. 12) (the 'Directive').

A full regulatory impact assessment of the effect that these Regulations will have on the costs of business is available (see table below).

Except for regulation 22(2), these Regulations apply only in relation to noise sources in Wales.

Strategic noise maps

The making of strategic noise maps will occur in two rounds, the first in 2007 and the second in 2012. In the second round a larger number of the same type of noise sources will have to be mapped than in the first round. Subsequently strategic noise maps will have to be made every five years.

Regulation 3 requires the National Assembly for Wales (the Assembly) to identify the noise sources for which strategic noise maps must be made. Regulation 7 requires the Assembly to make strategic noise maps for agglomerations, major roads, major railways and major airports designated under section 80 for the purposes of section 78 of the Civil Aviation Act 1982 (1982 c.16). From time to time, and whenever a major development occurs, the Assembly must review (and if necessary, revise) strategic noise maps.

Mae rheoliadau 11 a 12 yn ei gwneud yn ofynnol i weithredwyr meysydd awyr wneud mapiau sŵn strategol ar gyfer meysydd awyr nad ydynt yn ddynodedig o dan Ddeddf Hedfan Sifil 1982. Bydd angen gwneud mapiau sŵn strategol ar gyfer: (i) pob prif faes awyr nad yw'n ddynodedig; a (ii) sŵn mewn crynodrefi sy'n deillio o unrhyw feysydd awyr nad ydynt yn brif feysydd awyr (os yw sŵn awyrennau yn arwain at werth 55 Lden neu 50 Lnight yn unrhyw le yn y crynodrefi hynny). Bydd angen adolygu mapiau sŵn strategol (a'u diwygio, os bydd angen) o bryd i'w gilydd, a pha bryd bynnag y bydd prif ddatblygiad yn digwydd. Ar ôl i fapiau sŵn strategol gael eu gwneud, rhaid i weithredwyr y maes awyr eu cyflwyno (neu gyflwyno diwygiadau ohonynt) i'r Cynulliad i'w mabwysiadu.

Regulations 11 and 12 require airport operators to make strategic noise maps for airports that are not designated under the Civil Aviation Act 1982. Strategic noise maps will need to be made for: (i) all non-designated major airports; and (ii) noise in agglomerations arising from any non-major airports (if aircraft noise results in a value of 55 Lden or 50 Lnight anywhere in those agglomerations). Strategic noise maps will need to be reviewed (and revised if necessary) from time to time, and whenever a major development occurs. Once made, the airport operators must submit strategic noise maps (or their revisions) to the Assembly for adoption.

Rhaid i bob map sŵn strategol fodloni'r gofynion a osodir yn rheoliad 4.

All strategic noise maps must meet the requirements set out in regulation 4.

Mae rheoliad 4 ac Atodlen 3 yn pennu pa ddangosyddion sŵn a pha ddangosyddion sŵn atodol y mae'n rhaid eu defnyddio wrth wneud mapiau sŵn strategol. Mae Atodlen 2 yn gosod y dulliau asesu sydd i'w defnyddio i gyfrifiannu gwerthoedd dangosyddion sŵn. Pennir dulliau gwahanol ar gyfer pob ffynhonnell sŵn.

Regulation 4 and Schedule 3 specify which noise indicators and supplementary noise indicators must be used in making the strategic noise maps. Schedule 2 sets out the assessment methods to be used in calculating the values of noise indicators. Different methods are specified for each noise source.

Mae rheoliad 13 yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cynulliad nodi mannau tawel mewn crynodrefi.

Regulation 13 requires the Assembly to identify quiet areas in agglomerations.

Cynlluniau gweithredu

Action plans

Rhaid llunio cynlluniau gweithredu mewn dau gylch (y cyntaf yn 2008 a'r ail yn 2013) yn sgil y ddau gylch o fapiau sŵn strategol y seilir y cynlluniau gweithredu arnynt.

Action plans must be drawn up in two rounds (the first in 2008 and the second in 2013) following the two rounds of strategic noise maps upon which the action plans will be based.

Mae rheoliad 14 yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cynulliad gyhoeddi canllawiau ar sut y dylid nodi'r blaenoriaethau yn y cynlluniau gweithredu.

Regulation 14 requires the Assembly to publish guidance on how the priorities in action plans should be identified.

Mae rheoliad 15 yn gosod y gofynion ar gyfer cynlluniau gweithredu.

Regulation 15 sets out the requirements for action plans.

Mae rheoliad 17 yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cynulliad lunio cynlluniau gweithredu ar gyfer lleoedd ger prif ffyrdd a phrif reilffyrdd, ac ar gyfer crynodrefi. Rhaid i'r Cynulliad adolygu (a diwygio, os oes angen) y cynlluniau gweithredu bob pum mlynedd neu'n gynharach os bydd prif ddatblygiad yn digwydd.

Regulation 17 requires the Assembly to draw up action plans for places near to major roads and major railways, and for agglomerations. The Assembly must review (and revise, if necessary) the action plans every five years or sooner if a major development occurs.

Mae rheoliad 19 yn ei gwneud yn ofynnol i weithredwyr meysydd awyr lunio cynlluniau gweithredu mewn perthynas â phrif feysydd awyr. Rhaid i'r gweithredwr maes awyr adolygu'r cynlluniau gweithredu (a'u diwygio, os bydd angen) bob pum mlynedd neu'n gynharach os bydd prif ddatblygiad yn digwydd. Ar ôl i gynllun gweithredu gael ei lunio neu'i ddiwygio, rhaid i'r gweithredwyr meysydd awyr gyflwyno cynllun gweithredu i'r Cynulliad i'w fabwysiadu.

Regulation 19 requires airport operators to draw up action plans in relation to major airports. The airport operator must review (and revise, if necessary) the action plans every five years or sooner if a major development occurs. Once drawn up or revised, the airport operators must submit an action plan to the Assembly for adoption.

Mae rheoliad 20 yn pennu'r cyfranogiad cyhoeddus sy'n ofynnol yn ystod cyfnod llunio a diwygio'r cynlluniau gweithredu.

Regulation 20 specifies the public participation required during the preparation and revision of action plans.

Mae rheoliad 21 yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau cyhoeddus drin cynlluniau gweithredu fel pe baent yn bolisi i'r graddau y mae'r cynllun gweithredu yn nodi mai hwy sy'n gyfrifol am weithred benodol. Caiff awdurdodau cyhoeddus wyro oddi wrth y polisïau hyn o dan amgylchiadau penodedig.

Regulation 21 requires public authorities to treat action plans as policy insofar as the action plan identifies them as being responsible for a particular action. Public authorities may depart from such policies in specified circumstances.

Darpariaethau eraill

Other provisions

Mae rheoliad 22 yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau cymwys yng Nghymru gydweithio â'u cymheiriaid yng Ngogledd Iwerddon, yn yr Alban ac yn Lloegr pan fydd angen gwneud hynny er mwyn bodloni rhwymedigaethau o dan y Rheoliadau hyn neu o dan y Gyfarwyddeb.

Regulation 22 requires competent authorities in Wales to cooperate with their counterparts in Northern Ireland, Scotland and England when necessary to do so in order to meet obligations under these Regulations or the Directive.

Mae rheoliadau 23 a 24 yn gosod y mecanwaith y mae'r Cynulliad yn ei ddefnyddio i fabwysiadu mapiau sŵn strategol a chynlluniau gweithredu yn y drefn honno.

Regulations 23 and 24 set out the mechanism by which the Assembly adopts strategic noise maps and action plans respectively.

Mae rheoliad 26 yn rhoi'r pŵer i'r Cynulliad i'w gwneud yn ofynnol i awdurdodau cymwys roi gwybodaeth mewn perthynas â'u rhwymedigaethau o dan y Rheoliadau neu i gamu i mewn a chyflawni swyddogaethau awdurdodau cymwys o dan amgylchiadau penodedig.

Regulation 26 provides the Assembly with the power to require competent authorities to provide information in relation to their obligations under the Regulations or to step in and carry out the functions of competent authorities under specified circumstances.

Mae Rheoliad 27 yn rhoi pŵer i'r Ysgrifennydd Gwladol i adennill treuliau penodol oddi wrth awdurdodau cymwys.

Regulation 27 gives the Secretary of State power to reclaim certain expenses from competent authorities.

Mae Rheoliad 29 yn gosod gofynion ar gyfer cyhoeddi mapiau sŵn strategol a chynlluniau gweithredu.

Regulation 29 sets out requirements for the publication of strategic noise maps and action plans.

Mae Rheoliad 30 yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau cymwys roi sylw i unrhyw ganllawiau a gyhoeddir gan y Cynulliad.

Regulation 30 requires competent authorities to have regard to any guidance published by the Assembly.

Tabl

Argaeledd dogfennau y cyfeirir atynt yn y Rheoliadau

Dogfen	*Lle y gellir cael y ddogfen*	*Lle y gellir edrych ar y ddogfen*
Safon Brydeinig BS EN 61672-2: 2003, (ISBN 0-580-42224-0)	Y Sefydliad Safonau Prydeinig (www.standards direct.org/standards /standards2 /Standards Catalogue 24_view _17041.html)	Prif swyddfa Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig
Cyfarwyddeb 2002/49/EC Senedd Ewrop a'r Cyngor 25 Mehefin 2002 sy'n ymwneud ag asesu a rheoli swn amgylcheddol (O.J. Rhif L 189, 18.07.2002, t. 12)	http://europa.eu. int/eur-lex/ pri/en/oj/dat/2002/l _189/l_189200207 18en00120025.pdf	Prif swyddfa Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig
"SPIRE Data Standard, Version 1.0" (DEFRA 25 Tachwedd 2004	Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig [XXXX (http://www.defra. gov.uk/environment/ noise/ambient.htm)]	Prif swyddfa Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig
Argymhelliad y Comisiwn 2003/613/EC dyddiedig 6 Awst 2003 ynghylch y canllawiau ar y dulliau cyfrifiannu interim diwygiedig ar gyfer sŵn diwydiannol, sŵn awyrennau, sŵn traffig ffyrdd a sŵn rheilffyrdd, a data cysylltiedig ynghylch gollyngiadau (O.J. Rhif L212, 22.8.2003, t. 49.)	http://europa.eu. int/eur-lex/pri/en/oj /dat/2003/l_212/l_ 21220030822en00 490064.pdf	Prif swyddfa Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig

Table

Availability of documents referred to in the Regulations

Document	*Where document may be obtained*	*Where document may be inspected*
British Standard BS EN 61672-2: 2003, (ISBN 0-580-42224-0)	British Standards Institute (www.standardsdirect. org/standards/ standards2/Standards Catalogue24_view_ 17041.html)	The principal office of the Department for Environment, Food and Rural Affairs
Directive 2002/49/EC of the European Parliament and of the Council of 25 June 2002 relating to the assessment and management of environmental noise (O.J. No. L 189, 18.07. 2002, p. 12)	http://europa.eu.int /eur-lex/pri/en/oj/dat/ 2002/l_189/l_189200 20718en001200 25.pdf	The principal office of the Department for Environment, Food and Rural Affairs
"SPIRE Data Standard, Version 1.0" (DEFRA 25 November 2004)	Department for Environment, Food and Rural Affairs [XXXX (http://www.defra. gov.uk/environment/ noise/ambient.htm)]	The principal office of the Department for Environment, Food and Rural Affairs
Commission Recommendation 2003/613/EC of 6 August 2003 concerning the guidelines on the revised interim computation methods for industrial noise, aircraft noise, road traffic noise and railway noise, and related emissions data (O.J. No. L 212, 22.8.2003, p. 49.)	http://europa.eu. int/eur-lex/pri/en/oj /dat/2003/l_212/l_ 21220030822en 00490064.pdf	The principal office of the Department for Environment, Food and Rural Affairs

"Calculation of road traffic noise" (Yr Adran Drafnidiaeth, 7 Mehefin 1988, HMSO) (ISBN 0115508473	Y Llyfrfa (http://www.tsoshop.co.uk)	Prif swyddfa Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig
"Method for converting the UK road traffic noise index LA10,18h to the EU noise indicesfor road noise mapping" (DEFRA, 24 Ionawr 2006	Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig	Prif swyddfa Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig
"Calculation of railway noise" (Yr Adran Drafnidiaeth 13 Gorffennaf 1995, HMSO) (ISBN 0115517545)	Y Llyfrfa (http://www.tsoshop.co.uk)	Prif swyddfa Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig
"Calculation of railway noise 1995 Supplement No. 1 Procedure for the calculation of noise from Eurostar trains class 373" (Yr Adran Drafnidiaeth, 20 Hydref 1996, Y Llyfrfa) (ISBN 0115518738)	Y Llyfrfa (http://www.tsoshop.co.uk	Prif swyddfa Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig
"Rail and wheel roughness - implications for noise mapping based on the Calculation of Railway Noise procedure" (DEFRA Mawrth 2004)	Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig (http://www.defra.gov.uk/environment/noise/mapping/rail/index.htm)	Prif swyddfa Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig
"Report on Standard Method of Computing Noise Contours around Civil Airports" (Ailargraffiad, Cynhadledd	Cynhadledd Hedfan Sifil Ewrop (http://www.ecac-ceac.org/index.php?content=docstype&idtype=38)	Prif swyddfa Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig

"Calculation of road traffic noise" (Department of Transport, 7 June 1988, HMSO) (ISBN 0115508473)	The Stationery Office (http://www.tsoshop.co.uk)	The principal office of the Department for Environment, Food and Rural Affairs
Method for converting the UK road traffic noise index LA10,18h to the EU noise indices for road noise mapping" (DEFRA, 24th January 2006)	Department for Environment, Food and Rural Affairs	The principal office of the Department for Environment, Food and Rural Affairs
"Calculation of railway noise" (Department of Transport, 13 July 1995, HMSO) (ISBN 0115517545)	The Stationery Office (http://www.tsoshop.co.uk)	The principal office of the Department for Environment, Food and Rural Affairs
"Calculation of railway noise 1995 Supplement No. 1 Procedure for the calculation of noise from Eurostar trains class 373" (Department for Transport, 20 October 1996, Stationery Office) (ISBN 0115518738)	The Stationery Office (http://www.tsoshop.co.uk)	The principal office of the Department for Environment, Food and Rural Affairs
"Rail and wheel roughness - implications for noise mapping based on the Calculation of Railway Noise procedure" (DEFRA March 2004)	Department for Environment, Food and Rural Affairs (http://www.defra.gov.uk/environment/noise/mapping/rail/index.htm)	The principal office of the Department for Environment, Food and Rural Affairs
"Report on Standard Method of Computing Noise Contours around Civil Airports" (Second Edition, European Civil	The European Civil Aviation Conference (http://www.ecac-ceac.org/index.php?content=docstype&idtype=38)	The principal office of the Department for Environment, Food and Rural Affairs

Hedfan Sifil Ewrop 2-3 Gorffennaf 1997)		
"ISO 9613-2:1996 Acoustics - Attenuation of sound during propagation outdoors - Part 2: General method of calculation" (Y Sefydliad Safonau Rhyngwladol, 1996)	Y Sefydliad Rhyngwladol er Safoni (http://www.iso.ch)	Prif swyddfa'r Adran dros yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig
"Acoustics. Determination of sound power levels of multisource industrial plants for evaluation of sound pressure levels in the environment. Engineering method" (BS ISO 8297: 1994, Y Sefydliad Safonau Prydeinig)	Y Sefydliad Safonau Prydeinig (http://www.standardsdirect.org/standards/standards3/StandardsCatalogue24_view_23347.html)	Prif swyddfa Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig
"Acoustics. Determination of sound power levels of noise sources using sound pressure. Engineering method in an essentially free field over a reflecting plane" (BS EN ISO 3744:1995, Y Sefydliad Safonau Prydeinig)	Y Sefydliad Safonau Prydeinig (http://www.standardsdirect.org/standards/standards2/StandardsCatalogue24_view_19606.html)	Prif swyddfa Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig
"Acoustics. Determination of sound power levels of noise sources using sound pressure. Survey method using an enveloping measurement	Y Sefydliad Safonau Prydeinig (http://www.standardsdirect.org/standards/standards2/StandardsCatalogue24_view_19608.html)	Prif swyddfa Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig

Aviation Conference, 2-3 July 1997)		
"ISO 9613-2:1996 Acoustics - Attenuation of sound during propagation outdoors - Part 2: General method of calculation" (International Standards Organisation, 1996)	International Organisation for Standardization (http://www.iso.ch)	The principal office of the Department for Environment, Food and Rural Affairs
"Acoustics. Determination of sound power levels of multisource industrial plants for evaluation of sound pressure levels in the environment. Engineering method" (BS ISO 8297: 1994, British Standards Institute)	British Standards Institute (http://www.standardsdirect.org/standards/standards3/StandardsCatalogue24_view_23347.html)	The principal office of the Department for Environment, Food and Rural Affairs
"Acoustics. Determination of sound power levels of noise sources using sound pressure. Engineering method in an essentially free field over a reflecting plane" (BS EN ISO 3744:1995, British Standards Institute)	British Standards Institute (http://www.standardsdirect.org/standards/standards2/StandardsCatalogue24_view_19606.html)	The principal office of the Department for Environment, Food and Rural Affairs
"Acoustics. Determination of sound power levels of noise sources using sound pressure. Survey method using an enveloping measurement	British Standards Institute (http://www.standardsdirect.org/standards/standards2/StandardsCatalogue24_view_19608.html)	The principal office of the Department for Environment, Food and Rural Affairs

surface over a reflecting plane" (BS EN ISO 3746:1996, Y Sefydliad Safonau Prydeinig)		
"Good Practice Guide for Strategic Noise Mapping and the Production of Associated Data on Noise Exposure Version 2, Position Paper Final Draft" (Asesiad Gweithgor y Comisiwn Ewropeaidd o Fod o Fewn Clyw Sŵn, 13 Ionawr 2006)	Asesiad Gweithgor y Comisiwn Ewropeaidd o Fod o Fewn Clyw Sŵn (http://www.defra.gov.uk/environment/noise/mapping/exposure/pdf/exposuredata-guide.pdf)	Prif swyddfa Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig

surface over a reflecting plane" (BS EN ISO 3746:1996, British Standards Institute)		
"Good Practice Guide for Strategic Noise Mapping and the Production of Associated Data on Noise Exposure Version 2, Position Paper Final Draft" (European Commission Working Group Assessment of Exposure to Noise, 13 January 2006)	European Commission Working Group Assessment of Exposure to Noise (http://www.defra.gov.uk/environment/noise/mapping/exposure/pdf/exposuredata-guide.pdf)	The principal office of the Department for Environment, Food and Rural Affairs

2006 Rhif 2629 (Cy.225)

DIOGELU'R AMGYLCHEDD, CYMRU

Rheoliadau Sŵn Amgylcheddol (Cymru) 2006

Wedi'u gwneud	*3 Hydref 2006*
Yn dod i rym	*4 Hydref 2006*

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru, ac yntau wedi'i ddynodi(**1**) at ddibenion adran 2(2) o Ddeddf y Cymunedau Ewropeaidd 1972(**2**), mewn perthynas â mesurau sy'n ymwneud ag asesu, trafod a rheoli sŵn amgylcheddol, yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn:

RHAN 1
CYFFREDINOL

Enwi, cychwyn a chymhwyso

1.-(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Sŵn Amgylcheddol (Cymru) 2006 a deuant i rym ar 4 Hydref 2006.

(2) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys o ran Cymru.

(3) Nid oes dim ym mharagraff (2) yn golygu y dylai mapiau sŵn strategol a wneir neu a ddiwygir o dan y Rheoliadau hyn fod yn gyfyngedig i Gymru.

(4) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys i sŵn amgylcheddol sydd o fewn clyw pobl, a hynny'n benodol mewn ardaloedd adeiledig, mewn parciau cyhoeddus neu mewn ardaloedd tawel eraill mewn crynodref, yn agos i ysgolion, ysbytai ac adeiladau ac ardaloedd eraill sy'n sensitif o ran sŵn.

(5) Nid yw'r Rheoliadau hyn yn gymwys i sŵn a achosir gan y person ei hun sydd o fewn clyw i'r sŵn, sŵn sy'n deillio o weithgareddau domestig, sŵn a gaiff ei greu gan gymdogion, sŵn mewn gweithleoedd, sŵn y tu mewn i gyfrwng cludo neu sŵn a achosir gan weithgareddau milwrol mewn ardaloedd milwrol.

(**1**) O.S. 2004/706.

(**2**) 1972 p.68.

2006 No. 2629 (W.225)

ENVIRONMENTAL PROTECTION, WALES

The Environmental Noise (Wales) Regulations 2006

Made	*3 October 2006*
Coming into force	*4 October 2006*

The National Assembly for Wales, being designated(**1**) for the purposes of section 2(2) of the European Communities Act 1972(**2**), in relation to measures relating to the assessment, management and control of environmental noise, makes the following Regulations:

PART 1
GENERAL

Title, commencement and application

1.-(1) The title of these Regulations is the Environmental Noise (Wales) Regulations 2006 and they come into force on 4 October 2006.

(2) These Regulations apply in relation to Wales.

(3) Nothing in paragraph Error! Reference source not found. means that strategic noise maps made or revised under these Regulations should be limited to Wales.

(4) These Regulations apply to environmental noise to which humans are exposed in particular in built-up areas, in public parks or other quiet areas in an agglomeration, near schools, hospitals and other noise-sensitive buildings and areas.

(5) These Regulations do not apply to noise that is caused by the exposed person him or herself, noise from domestic activities, noise created by neighbours, noise at work places or noise inside means of transport or due to military activities in military areas.

(**1**) S.I. 2004/706.

(**2**) 1972 c.68.

Dehongli

2.-(1) Oni bai eu bod yn cael eu diffinio fel arall yn y Rheoliadau hyn, mae i eiriau a thermau a ddefnyddir yn y Rheoliadau hyn ac yn y Gyfarwyddeb yr ystyr sydd iddynt yn y Gyfarwyddeb.

(2) Yn y Rheoliadau hyn-

ystyr "ar ffurf rheoliadau" ("*in the form of regulations*") yw ar ffurf rheoliadau a wnaed o dan adran 2(2) o Ddeddf y Cymunedau Ewropeaidd 1972;

ystyr "ardal dawel mewn crynodref" ("*quiet area in an agglomeration*") yw ardal y nodir ei bod yn ardal dawel mewn crynodref yn unol â rheoliad 13;

ystyr "blwyddyn galendr" ("*calendar year*") yw cyfnod o flwyddyn yn dechrau ar 1 Ionawr;

"cefnffordd" ("*trunk road*") yw unrhyw briffordd os y Cynulliad yw'r awdurdod priffyrdd perthnasol drosti;

ystyr "crynodref" ("*agglomeration*") yw ardal y nodir ei bod yn grynodref yn unol â rheoliad 3;

ystyr "crynodref cylch cyntaf" ("*first round agglomeration*") yw ardal y nodir ei bod yn grynodref cylch cyntaf yn unol â rheoliad 3;

ystyr "Cyfarwyddeb" ("*Directive*") yw Cyfarwyddeb 2002/49/EC Senedd Ewrop a'r Cyngor dyddiedig 25 Mehefin 2002 sy'n ymwneud ag asesu a rheoli sŵn amgylcheddol(**1**);

ystyr "y Cynulliad" ("*the Assembly*") yw Cynulliad Cenedlaethol Cymru;

mae i "dangosydd sŵn atodol" ("*supplementary noise indicator*") yr ystyr a roddir iddo yn rheoliad 4(6);

ystyr "dB(A)" ("*dB(A)*") yw mesur o lefel pwysedd sŵn (a'r lefel wedi'i phwysoli yn unol ag "A") mewn desibelau fel a bennir yn y Safon Brydeinig BS EN 61672-2: 2003(**2**);

ystyr "DEFRA" yw Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig;

mae i "ffordd arbennig" yr ystyr sydd i "*special road*" yn adran 329(1) o Ddeddf Priffyrdd 1980;

ystyr "gweithredydd maes awyr" ("*airport operator*") yw'r person sydd, ar y pryd, mewn cysylltiad â maes awyr penodol, yn rheoli'r maes awyr hwnnw;

Interpretation

2.-(1) Unless otherwise defined in these Regulations, words and terms used in these Regulations and in the Directive have the same meaning as in the Directive.

(2) In these Regulations-

"the Assembly" ("*y Cynulliad*") means the National Assembly for Wales;

"agglomeration" ("*crynodref*") means an area identified as an agglomeration pursuant to regulation 3;

"airport operator" ("*gweithredydd maes awyr*") means the person for the time being having, in relation to a particular airport, the management of that airport;

"calendar year" ("*blwyddyn galendr*") means a period of a year beginning on 1 January;

"dB(A)" ("dB(A)") is a measure of sound pressure level ("A" weighted) in decibels as specified in British Standard BS EN 61672-2: 2003(**1**);

"DEFRA" means the Department for Environment Food and Rural Affairs;

"designated" ("*wedi'i ddynodi*") when used in relation to any airport means designated under section 80 for the purposes of section 78 of the Civil Aviation Act 1982(**2**);

"Directive" ("*Cyfarwyddeb*") means Directive 2002/49/EC of the European Parliament and of the Council of 25 June 2002 relating to the assessment and management of environmental noise(**3**);

"first round agglomeration" ("*crynodref cylch cyntaf*") means an area identified as a first round agglomeration pursuant to regulation 3;

"first round major railway" ("*prif reilffordd cylch cyntaf*") means a railway which is identified as a first round major railway pursuant to regulation 3;

"first round major road" ("*prif ffordd cylch cyntaf*") means a road which is identified as a first round major road pursuant to regulation 3;

"in the form of regulations"("*ar ffurf rheoliadau*") means in the form of regulations made under section 2(2) of the European Communities Act 1972;

"Lday" covers the period 07:00 - 19:00 hours in any 24 hour period;

(**1**) O.J. Rhif L189, 18.07.2002, t. 12.

(**2**) ISBN 0-580-42224-0.

(**1**) ISBN 0-580-42224-0.

(**2**) 1982 c.16.

(**3**) O.J. No. L 189, 18.07.2002, p. 12.

ystyr "heb ei ddynodi" ("*non-designated*") pan y'i defnyddir mewn perthynas â maes awyr yw nad yw wedi'i ddynodi o dan adran 80 at ddibenion adran 78 o Ddeddf Hedfan Sifil 1982;

mae "Lday" yn cwmpasu'r cyfnod rhwng 07:00 a 19:00 o'r gloch mewn unrhyw gyfnod o 24 awr;

mae "Levening" yn cwmpasu'r cyfnod rhwng 19:00 a 23:00 o'r gloch mewn unrhyw gyfnod o 24 awr;

mae "Lnight" yn cwmpasu'r cyfnod rhwng 23:00 a 07:00 o'r gloch mewn unrhyw gyfnod o 24 awr;

ystyr "prif faes awyr" ("*major airport*") yw maes awyr y nodir ei fod yn brif faes awyr yn unol â rheoliad 3;

ystyr "prif ffordd" ("*major road*") yw ffordd y nodir ei bod yn brif ffordd yn unol â rheoliad 3;

ystyr "prif ffordd cylch cyntaf" ("*first round major road*") yw ffordd y nodir ei bod yn brif ffordd cylch cyntaf yn unol â rheoliad 3;

ystyr "prif ffordd neu ffordd ddosbarth" ("*principal or classified road*") yw ffordd a elwir-

(a) priff ffordd;

(b) ffordd ddosbarth; neu

(c) prif ffordd yn ogystal â ffordd ddosbarth,

yn rhinwedd adran 12 o Ddeddf Priffyrdd 1980 (p'un ai oherwydd ei bod yn dod o fewn is-adran (1), neu oherwydd ei bod yn ffordd ddosbarth o dan is-adran (3));

ystyr "prif reilffordd" ("*major railway*") yw rheilffordd y nodir ei bod yn brif reilffordd yn unol â rheoliad 3;

ystyr "prif reilffordd cylch cyntaf" ("*first round major railway*") yw rheilffordd y nodir ei bod yn brif reilffordd cylch cyntaf yn unol â rheoliad 3;

ystyr "traffordd" ("*motorway*") (ac eithrio fel a ddarperir fel arall gan neu o dan reoliadau a wnaed o dan adran 17 o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(**1**)) yw ffordd arbennig y gellir ei defnyddio'n unig gan draffig Dosbarth I neu II fel a bennir yn Atodlen 4 i Ddeddf Priffyrdd 1980(**2**); ac

ystyr "wedi'i ddynodi" ("*designated*") pan y'i defnyddir mewn perthynas ag unrhyw faes awyr yw ei fod wedi'i ddynodi o dan adran 80 at ddibenion adran 78 o Ddeddf Hedfan Sifil 1982(**3**).

"Levening" covers the period 19:00 - 23:00 hours in any 24 hour period;

"Lnight" covers the period 23:00 - 07:00 hours in any 24 hour period;

"major airport" ("*prif faes awyr*") rsuant to regulation 3;

"major railway" ("*prif reilffordd*") means a railway which is identified as a major railway pursuant to regulation 3;

"major road" ("*prif ffordd*") means a road which is identified as a major road pursuant to regulation 3;

"motorway" ("*traffordd*") means a special road which (save as otherwise provided by or under regulations made under section 17 of the Road Traffic Regulation Act 1984(**1**)) can be used by traffic only of Class I or II as specified in Schedule 4 to the Highways Act 1980(**2**);

"non-designated" ("*heb ei ddynodi*") when used in relation to an airport means not designated under section 80 for the purposes of section 78 of the Civil Aviation Act 1982;

"principal or classified road" ("*prif ffordd neu ffordd ddosbarth*") means a road which is known as-

(a) a principal road;

(b) a classified road; or

(c) both a principal road and a classified road,

by virtue of section 12 of the Highways Act 1980 (whether by falling within subsection (1), or being classified under subsection (3));

"quiet area in an agglomeration" ("*ardal dawel mewn crynodref*") means an area which is identified as a quiet area in an agglomeration in accordance with regulation 13;

"special road" ("*ffordd arbennig*") has the same meaning as in section 329(1) of the Highways Act 1980;

"supplementary noise indicator" ("*dangosydd sŵn atodol*") has the meaning given in regulation 4(6); and

"trunk road" ("*cefnffordd*") means any highway for which the Assembly is the relevant highway authority.

(**1**) 1984 p.27; diwygiwyd adran 17 gan Ddeddf Ffyrdd Newydd a Gwaith Stryd 1991 (p.22), Atodlen 8, paragraff 28 ac Atodlen 9, a chan Ddeddf Traffig Ffyrdd 1991 (p.40), Atodlen 7, paragraff 3 ac Atodlen 8.

(**2**) 1980 p.66. Mae Atodlen 4 wedi'i diwygio gan Ddeddf Traffig Ffyrdd (Darpariaethau Canlyniadol) 1988 (p.54), Atodlen 3, paragraff 21(3).

(**3**) 1982 p.16.

(**1**) 1984 c.27; section 17 was amended by the New Roads and Street Works Act 1991 (c.22), Schedule 8, paragraph 28 and Schedule 9, and by the Road Traffic Act 1991 (c.40), Schedule 7, paragraph 3 and Schedule 8.

(**2**) 1980 c.66. Schedule 4 has been amended by the Road Traffic (Consequential Provisions) Act 1988 (c.54), Schedule 3, paragraph 21(3).

Nodi ffynonellau sŵn

3.-(1) Rhaid i'r Cynulliad nodi, a hynny ar ffurf rheoliadau a heb fod yn hwyrach na 31 Rhagfyr 2006, yr holl-

(a) crynodrefi cylch cyntaf;

(b) prif ffyrdd cylch cyntaf;

(c) prif reilffyrdd cylch cyntaf; ac

(ch) prif feysydd awyr.

(2) Rhaid i'r Cynulliad nodi, a hynny ar ffurf rheoliadau a heb fod yn hwyrach na 31 Rhagfyr 2011, yr holl-

(a) crynodrefi;

(b) prif ffyrdd;

(c) prif reilffyrdd; ac

(ch) prif feysydd awyr.

(3) Mae paragraff (4) yn gymwys os yw'r Cynulliad o'r farn nad yw'r rheoliadau diweddaraf a gynhyrchir yn unol â'r rheoliad hwn yn briodol mwyach.

(4) Mewn unrhyw flwyddyn berthnasol rhaid i'r Cynulliad nodi, a hynny ar ffurf rheoliadau-

(a) crynodrefi;

(b) prif ffyrdd;

(c) prif reilffyrdd; neu

(ch) prif feysydd awyr,

yn ôl yr angen.

(5) Ym mharagraff (4) ystyr "blwyddyn berthnasol" ("*relevant year*") yw 2016 a phob pumed flwyddyn ar ôl hynny.

(6) Pan fydd yn cyflawni ei ddyletswydd o dan baragraff (1)(a) i nodi crynodrefi cylch cyntaf, rhaid i'r Cynulliad nodi ardaloedd-

(a) y mae eu poblogaeth yn fwy na 250,000 o bersonau ac y mae dwysedd eu poblogaeth yn hafal i 500 o bobl fesul km2 neu'n fwy na hynny; a

(b) y mae o'r farn eu bod yn drefoledig.

(7) Pan fydd yn cyflawni ei ddyletswydd o dan baragraff (2)(a) neu (4)(a) i nodi crynodrefi, rhaid i'r Cynulliad nodi ardaloedd-

(a) y mae eu poblogaeth yn fwy na 100,000 o bersonau ac y mae dwysedd eu poblogaeth yn hafal i 500 o bobl fesul km2 neu'n fwy na hynny; a

(b) y mae o'r farn eu bod yn drefoledig.

(8) Pan fydd yn cyflawni ei ddyletswydd o dan baragraff (1)(b) i nodi prif ffyrdd cylch cyntaf rhaid i'r Cynulliad nodi ffyrdd-

(a) sydd-

(i) yn gefnffyrdd,

Identification of noise sources

3.-(1) No later than 31 December 2006 the Assembly must, in the form of regulations, identify all-

(a) first round agglomerations;

(b) first round major roads;

(c) first round major railways; and

(d) major airports.

(2) No later than 31 December 2011 the Assembly must, in the form of regulations, identify all-

(a) agglomerations;

(b) major roads;

(c) major railways; and

(d) major airports.

(3) Paragraph (4) applies if the Assembly considers that the most recent regulations produced pursuant to this regulation are no longer appropriate.

(4) In any relevant year the Assembly must, in the form of regulations, identify-

(a) agglomerations;

(b) major roads;

(c) major railways; or

(d) major airports,

as necessary.

(5) In paragraph (4) "relevant year" ("*blwyddyn berthnasol*") means 2016 and every fifth year thereafter.

(6) When discharging its duty under paragraph (1)(a) to identify first round agglomerations, the Assembly must identify areas-

(a) having a population in excess of 250,000 persons and a population density equal to or greater than 500 people per km2; and

(b) which it considers to be urbanised.

(7) When discharging its duty under paragraph (2)(a) or (4)(a) to identify agglomerations the Assembly must identify areas-

(a) having a population in excess of 100,000 persons and a population density equal to or greater than 500 people per km2; and

(b) which it considers to be urbanised.

(8) When discharging its duty under paragraph (1)(b) to identify first round major roads the Assembly must identify roads which-

(a) are-

(i) trunk roads,

(ii) yn draffyrdd nad ydynt yn gefnffyrdd, neu

(iii) yn brif ffyrdd neu'n ffyrdd dosbarth;

(b) y mae arnynt fwy na chwe miliwn o dramwyadau cerbyd y flwyddyn; ac

(c) y mae o'r farn eu bod yn ffyrdd rhanbarthol, cenedlaethol neu ryngwladol.

(9) Pan fydd yn cyflawni ei ddyletswydd o dan baragraff (2)(b) neu (4)(b) i nodi prif ffyrdd rhaid i'r Cynulliad nodi ffyrdd-

(a) sydd-

(i) yn gefnffyrdd,

(ii) yn draffyrdd nad ydynt yn gefnffyrdd, neu

(iii) yn brif ffyrdd neu'n ffyrdd dosbarth;

(b) y mae arnynt fwy na thair miliwn o dramwyadau cerbyd y flwyddyn; ac

(c) y mae o'r farn eu bod yn ffyrdd rhanbarthol, cenedlaethol neu ryngwladol.

(10) Pan fydd yn cyflawni ei ddyletswydd o dan baragraff (1)(c) i nodi prif reilffyrdd cylch cyntaf rhaid i'r Cynulliad nodi rheilffyrdd y mae arnynt fwy na 60,000 o dramwyadau trên y flwyddyn.

(11) Pan fydd yn cyflawni ei ddyletswydd o dan baragraff (2)(c) neu (4)(c) i nodi prif reilffyrdd rhaid i'r Cynulliad nodi rheilffyrdd y mae arnynt fwy na 30,000 o dramwyadau trên y flwyddyn.

(12) Pan fydd yn cyflawni ei ddyletswydd o dan baragraff (1)(ch), (2)(ch) neu (4)(ch) i nodi prif feysydd awyr rhaid i'r Cynulliad nodi meysydd awyr sifil lle y mae mwy na 50,000 o symudiadau y flwyddyn (ac mae symudiad yn golygu awyren yn codi neu'n glanio), heb gynnwys symudiadau at ddiben hyfforddiant yn unig ar awyrennau ysgafn.

(ii) motorways that are not trunk roads, or

(iii) principal or classified roads;

(b) have more than six million vehicle passages a year; and

(c) it considers to be regional, national or international.

(9) When discharging its duty under paragraph (2)(b) or (4)(b) to identify major roads the Assembly must identify roads which-

(a) are-

(i) trunk roads,

(ii) motorways that are not trunk roads, or

(iii) principal or classified roads;

(b) have more than three million vehicle passages a year; and

(c) it considers to be regional, national or international.

(10) When discharging its duty under paragraph (1)(c) to identify first round major railways the Assembly must identify railways which have more than 60,000 train passages per year.

(11) When discharging its duty under paragraph (2)(c) or (4)(c) to identify major railways the Assembly must identify railways which have more than 30,000 train passages per year.

(12) When discharging its duty under paragraph (1)(d), (2)(d) or (4)(d) to identify major airports the Assembly must identify civil airports which have more than 50,000 movements per year (a movement being a take-off or a landing), excluding those purely for training purposes on light aircraft.

RHAN 2

MAPIAU SŴN STRATEGOL

PART 2

STRATEGIC NOISE MAPS

PENNOD 1

GOFYNION CYFFREDINOL AR GYFER MAPIAU SŴN STRATEGOL

CHAPTER 1

GENERAL REQUIREMENTS FOR STRATEGIC NOISE MAPS

Mapiau sŵn strategol: gofynion cyffredinol

4.-(1) Rhaid i unrhyw fap sŵn strategol a wnaed neu a ddiwygiwyd o dan y Rhan hon fodloni'r gofynion cymwys yn Atodlen 1.

(2) Rhaid i awdurdod cymwys o dan reoliad 6 neu 10 gymhwyso-

Strategic noise maps: general requirements

4.-(1) Any strategic noise map made or revised under this Part must satisfy the applicable requirements in Schedule 1.

(2) A competent authority under regulation 6 or 10 must apply-

(a) y dangosyddion sŵn Lden ac Lnight yn unol ag Atodiad I i'r Gyfarwyddeb; a

(b) y dangosyddion sŵn atodol ym mhob achos a restrir fel enghreifftiau ym mharagraff 3 o Atodiad I i'r Gyfarwyddeb,

pan fydd yn gwneud neu'n diwygio mapiau sŵn strategol o dan y Rhan hon.

(3) Rhaid canfod gwerthoedd Lden, Lnight a'r dangosyddion sŵn atodol drwy gyfrwng y dulliau asesu a geir yn Atodlen 2.

(4) Yn ddarostyngedig i baragraff (5) caniateir trosi dangosyddion sŵn presennol a data perthynol yn Lden ac yn Lnight.

(5) Rhaid i'r data y cyfeirir atynt ym mharagraff (4) beidio â bod yn fwy na thair blwydd oed.

(6) Ystyr "dangosydd sŵn atodol" ("supplementary noise indicator") yw dangosydd sŵn fel a ddiffinnir yn Atodlen 3.

(a) the noise indicators Lden and Lnight in accordance with Annex I of the Directive; and

(b) the supplementary noise indicators in all cases listed as examples in paragraph 3 of Annex I of the Directive,

when making or revising strategic noise maps under this Part.

(3) The values of Lden, Lnight and the supplementary noise indicators must be determined by means of the assessment methods set out in Schedule 2.

(4) Subject to paragraph (5) existing noise indicators and related data may be converted into Lden and Lnight.

(5) The data referred to in paragraph (4) must not be more than three years old.

(6) "Supplementary noise indicator" means a noise indicator as defined in Schedule 3.

PENNOD 2

MAPIAU SŴN STRATEGOL - FFYNONELLAU SŴN AC EITHRIO MEYSYDD AWYR HEB EU DYNODI

Cymhwyso

5. Nid yw'r Bennod hon yn gymwys i sŵn o feysydd awyr heb eu dynodi.

Awdurdod Cymwys

6. Yr awdurdod cymwys o ran y Bennod hon yw'r Cynulliad.

Dyletswydd i wneud, adolygu a diwygio mapiau sŵn strategol

7.-(1) Rhaid i'r awdurdod cymwys, heb fod yn hwyrach na 30 Mehefin 2007, wneud ac, yn unol â rheoliad 23, fabwysiadu mapiau sŵn strategol yn dangos y sefyllfa yn y flwyddyn galendr flaenorol ar gyfer yr holl-

(a) crynodrefi cylch cyntaf;

(b) prif ffyrdd cylch cyntaf;

(c) prif reilffyrdd cylch cyntaf; ac

(ch) prif feysydd awyr.

(2) Rhaid i'r awdurdod cymwys, heb fod yn hwyrach na 30 Mehefin 2012, a phob pum mlynedd ar ôl hynny, wneud ac, yn unol â rheoliad 23, fabwysiadu mapiau sŵn strategol yn dangos y sefyllfa yn y flwyddyn galendr flaenorol ar gyfer yr holl-

CHAPTER 2

STRATEGIC NOISE MAPS - NOISE SOURCES OTHER THAN NON-DESIGNATED AIRPORTS

Application

5. This Chapter does not apply to noise from non-designated airports.

Competent Authority

6. The competent authority for this Chapter is the Assembly.

Duty to make, review and revise strategic noise maps

7.-(1) No later than 30 June 2007 the competent authority must make and, in accordance with regulation 23, adopt strategic noise maps showing the situation in the preceding calendar year for all-

(a) first round agglomerations;

(b) first round major roads;

(c) first round major railways; and

(d) major airports.

(2) No later than 30 June 2012, and thereafter every five years, the competent authority must make and, in accordance with regulation 23, adopt strategic noise maps showing the situation in the preceding calendar year for all-

(a) crynodrefi;

(b) prif ffyrdd;

(c) prif reilffyrdd; ac

(ch) prif feysydd awyr.

(3) O bryd i'w gilydd, a pha bryd bynnag y bydd prif ddatblygiad yn digwydd ac yn effeithio ar y sefyllfa bresennol o ran sŵn, rhaid i'r awdurdod cymwys-

(a) adolygu; a

(b) diwygio, os bydd angen,

unrhyw fapiau sŵn strategol a wnaed yn unol â pharagraffau (1) neu (2) ac a fabwysiadwyd yn unol â rheoliad 23.

PENNOD 3

MAPIAU SŴN STRATEGOL - MEYSYDD AWYR HEB EU DYNODI

Cymhwyso

8. Mae'r Bennod hon yn gymwys i sŵn o feysydd awyr heb eu dynodi.

Dehongli

9.-(1) Yn y Bennod hon-

ystyr "data mewnbwn" ("*input data*") yw'r holl ddata a'r wybodaeth berthynol a ddefnyddir i gynhyrchu'r data rhifiadol y mae paragraff 3(2)(b) neu 4(2)(b) (fel y bo'n briodol) yn Atodlen 1 yn eu gwneud yn ofynnol a hynny ar ffurf electronig;

ystyr "metadata" ("*metadata*") yw'r cyfryw elfennau yn Adran 2 y "SPIRE Data Standard, Version 1.0" (DEFRA, 25 Tachwedd 2004)(**1**) ag y mae eu hangen i ddisgrifio-

(a) y data mewnbwn; a

(b) yr wybodaeth a'r data y mae paragraff 3(2) neu 4(2) (fel y bo'n briodol) yn Atodlen 1 yn eu gwneud yn ofynnol.

(2) Mae unrhyw ofyniad yn y Bennod hon am gyflwyno data mewnbwn i awdurdod cymwys yn ofyniad am gyflwyno'r data mewnbwn hynny ar fformat-

(a) sy'n electronig;

(b) sy'n caniatáu ei drin yn electronig; ac

(c) nad yw'n ofynnol ei drin er mwyn atgynhyrchu'r data rhifiadol ar ffurf electronig y mae paragraff 3(2)(b) neu 4(2)(b) (fel y bo'n briodol) yn Atodlen 1 yn eu gwneud yn ofynnol.

(**1**) Rhaglen SPIRE, Cyfeirnod y Cynnyrch: SIP - DP - 011.

(a) agglomerations;

(b) major roads;

(c) major railways; and

(d) major airports.

(3) From time to time, and whenever a major development occurs affecting the existing noise situation, the competent authority must-

(a) review; and

(b) if necessary revise,

any strategic noise map made pursuant to paragraphs (1) or (2) and adopted pursuant to regulation 23.

CHAPTER 3

STRATEGIC NOISE MAPS - NON-DESIGNATED AIRPORTS

Application

8. This Chapter applies to noise from non-designated airports.

Interpretation

9.-(1) In this Chapter-

"input data" ("*data mewnbwn*") means all the data and related information used to produce the numerical data in electronic form required by paragraph 3(2)(b) or 4(2)(b) (as appropriate) of Schedule 1;

"metadata" ("*metadata*") means such elements of Section 2 of the "SPIRE Data Standard, Version 1.0" (DEFRA, 25 November 2004)(**1**) as are required to describe the-

(a) input data; and

(b) information and data required by paragraph 3(2) or 4(2) (as appropriate) of Schedule 1.

(2) Any requirement in this Chapter to submit input data to a competent authority is a requirement to submit that input data in a format that-

(a) is electronic;

(b) allows electronic manipulation; and

(c) does not require manipulation in order to reproduce the numerical data in electronic form required by paragraph 3(2)(b) or 4(2)(b) (as appropriate) of Schedule 1.

(**1**) SPIRE Programme, Product Reference: SIP - DP - 011.

Awdurdod Cymwys

10. Yr awdurdod cymwys o ran y Bennod hon yw gweithredydd y maes awyr.

Dyletswydd i wneud, adolygu a diwygio mapiau sŵn strategol: prif feysydd awyr heb eu dynodi

11.-(1) Dim ond i brif feysydd awyr heb eu dynodi y mae'r rheoliad hwn yn gymwys.

(2) Rhaid i'r awdurdod cymwys, heb fod yn hwyrach na 31 Mawrth 2007, a phob pum mlynedd wedi hynny-

(a) gwneud map sŵn strategol yn dangos beth oedd y sefyllfa o ran y maes awyr yn y flwyddyn galendr flaenorol; a

(b) cyflwyno'r map hwnnw i'r Cynulliad ynghyd â data mewnbwn a metadata.

(3) O bryd i'w gilydd, a pha bryd bynnag y bydd prif ddatblygiad yn digwydd ac yn effeithio ar y sefyllfa bresennol o ran sŵn, rhaid i'r awdurdod cymwys-

(a) adolygu; a

(b) diwygio, os bydd angen,

unrhyw fap sŵn strategol map a wnaed yn unol â pharagraff (2) ac a fabwysiadwyd yn unol â rheoliad 23.

(4) Rhaid i'r awdurdod cymwys gyflwyno i'r Cynulliad unrhyw fap sŵn strategol a ddiwygiwyd yn unol â pharagraff (3)(b), ynghyd â data mewnbwn a metadata, a hynny o fewn tri diwrnod gwaith i'w ddiwygio.

Dyletswydd i wneud, adolygu a diwygio mapiau sŵn strategol: crynodrefi

12. -(1) Rhaid i'r awdurdod cymwys heb fod yn hwyrach na 31 Mawrth 2007-

(a) gwneud map sŵn strategol yn dangos beth oedd y sefyllfa yn y flwyddyn galendr flaenorol o ran unrhyw grynodrefi cylch cyntaf perthnasol; a

(b) cyflwyno'r map hwnnw i'r Cynulliad ynghyd â data mewnbwn a metadata.

(2) Rhaid i'r awdurdod cymwys, heb fod yn hwyrach na 31 Mawrth 2012, a phob pum mlynedd wedi hynny-

(a) gwneud map sŵn strategol yn dangos beth oedd y sefyllfa o ran unrhyw grynodref berthnasol yn y flwyddyn galendr flaenorol; a

(b) cyflwyno'r map hwnnw i'r Cynulliad ynghyd â data a metadata.

(3) O bryd i'w gilydd, a pha bryd bynnag y bydd prif ddatblygiad yn digwydd ac yn effeithio ar y sefyllfa bresennol o ran sŵn, rhaid i'r awdurdod cymwys-

(a) adolygu; a

(b) diwygio, os bydd angen,

Competent Authority

10. The competent authority for this Chapter is the airport operator.

Duty to make, review and revise strategic noise maps: non-designated major airports

11.-(1) This regulation applies only to non-designated major airports.

(2) No later than 31 March 2007, and thereafter every five years, the competent authority must-

(a) make a strategic noise map showing the situation in the preceding calendar year for the airport; and

(b) submit that map with input data and metadata to the Assembly.

(3) From time to time, and whenever a major development occurs affecting the existing noise situation, the competent authority must-

(a) review; and

(b) if necessary revise,

any strategic noise map made pursuant to paragraph (2) and adopted pursuant to regulation 23.

(4) The competent authority must submit any strategic noise map revised pursuant to paragraph (3)(b), with input data and metadata, to the Assembly within three working days of its revision.

Duty to make, review and revise strategic noise maps: agglomerations

12. -(1) No later than 31 March 2007 the competent authority must-

(a) make a strategic noise map showing the situation in the preceding calendar year for any relevant first round agglomeration; and

(b) submit that map with input data and metadata to the Assembly.

(2) No later than 31 March 2012, and thereafter every five years, the competent authority must-

(a) make a strategic noise map showing the situation in the preceding calendar year for any relevant agglomeration; and

(b) submit that map with input data and metadata to the Assembly.

(3) From time to time, and whenever a major development occurs affecting the existing noise situation, the competent authority must-

(a) review; and

(b) if necessary revise,

unrhyw fap sŵn strategol a wnaed yn unol â pharagraffau (1) neu (2) ac a fabwysiadwyd yn unol â rheoliad 23.

(4) Rhaid i'r awdurdod cymwys gyflwyno i'r Cynulliad unrhyw fap sŵn strategol a ddiwygiwyd yn unol â pharagraff (3)(b), ynghyd â data mewnbwn a metadata, a hynny o fewn tri diwrnod gwaith i'w ddiwygio.

(5) Yn y rheoliad hwn-

ystyr "crynodref berthnasol" ("*relevant agglomeration*") yw crynodref lle y mae traffig awyr o'r maes awyr yn arwain at sŵn traffig awyr-

(a) y mae ei werth Lden yn 55 dB(A) neu fwy; neu

(b) y mae ei werth Lnight yn 50 dB(A) neu fwy,

yn unrhyw le o fewn y grynodref;

ystyr "crynodref cylch cyntaf perthnasol" ("*relevant first round agglomeration*") yw crynodref cylch cyntaf lle y mae traffig awyr o'r maes awyr yn arwain at sŵn traffig awyr-

(a) y mae ei werth Lden yn 55 dB(A) neu fwy; neu

(b) y mae ei werth Lnight yn 50 dB(A) neu fwy,

yn unrhyw le o fewn y grynodref cylch cyntaf.

any strategic noise map made pursuant to paragraphs (1) or (2) and adopted pursuant to regulation 23.

(4) The competent authority must submit any strategic noise map revised pursuant to paragraph (3)(b), with input data and metadata, to the Assembly within three working days of its revision.

(5) In this regulation-

"relevant first round agglomeration" ("*crynodref cylch cyntaf perthnasol*") means a first round agglomeration in which air traffic from the airport results in air traffic noise of-

(a) an Lden value of 55 dB(A) or greater; or

(b) an Lnight value of 50 dB(A) or greater,

anywhere within the first round agglomeration;

"relevant agglomeration" ("*crynodref perthnasol*") means an agglomeration in which air traffic from the airport results in air traffic noise of-

(a) an Lden value of 55 dB(A) or greater; or

(b) an Lnight value of 50 dB(A) or greater,

anywhere within the agglomeration.

RHAN 3
ARDALOEDD TAWEL

Nodi ardaloedd tawel

13.-(1) Heb fod yn hwyrach na-

(a) 30 Medi 2007; a

(b) 30 Medi 2012,

rhaid i'r Cynulliad nodi, a hynny ar ffurf rheoliadau, ardaloedd tawel mewn crynodrefi.

(2) Mae paragraff (3) yn gymwys os yw'r Cynulliad o'r farn nad yw'r rheoliadau diweddaraf a gynhyrchir yn unol â'r rheoliad hwn yn briodol mwyach.

(3) Rhaid i'r Cynulliad, a hynny ar ffurf rheoliadau a heb fod yn hwyrach na 30 Medi mewn unrhyw flwyddyn berthnasol, ac os yw o'r farn bod angen hynny, nodi ardaloedd tawel mewn crynodrefi.

(4) Ym mharagraff (3) ystyr "blwyddyn berthnasol" ("*relevant year*") yw 2017 a phob pumed flwyddyn ar ôl hynny.

PART 3
QUIET AREAS

Identification of quiet areas

13.-(1) No later than-

(a) 30 September 2007; and

(b) 30 September 2012,

the Assembly must, in the form of regulations, identify quiet areas in agglomerations.

(2) Paragraph (3) applies if the Assembly considers that the most recent regulations produced pursuant to this regulation are no longer appropriate.

(3) No later than 30 September in any relevant year the Assembly must, if it considers it necessary, in the form of regulations identify quiet areas in agglomerations.

(4) In paragraph (3) "relevant year" ("*blwyddyn berthnasol*") means 2017 and every fifth year thereafter.

RHAN 4

CYNLLUNIAU GWEITHREDU

PENNOD 1

CYFFREDINOL

PART 4

ACTION PLANS

CHAPTER 1

GENERAL

Dyletswydd i gyhoeddi meini prawf neu werthoedd terfyn

14. Rhaid i'r Cynulliad, a hynny heb fod yn hwyrach nag 18 Gorffennaf 2007 gyhoeddi canllawiau sy'n gosod gwerthoedd terfyn neu feini prawf eraill ar gyfer nodi blaenoriaethau i gynlluniau gweithredu.

Duty to publish criteria or limit values

14. No later than 18 July 2007 the Assembly must publish guidance setting out limit values or other criteria for the identification of priorities for action plans.

Cynlluniau gweithredu: gofynion cyffredinol

15.-(1) Rhaid i unrhyw gynllun gweithredu a gaiff ei lunio neu ei ddiwygio o dan y Rhan hon-

(a) bodloni amcanion Erthygl 1(c) o'r Gyfarwyddeb;

(b) gael ei gynllunio i drafod materion ac effeithiau sŵn, gan gynnwys lleihau sŵn os bydd angen;

(c) amcanu i ddiogelu ardaloedd tawel mewn crynodrefi rhag cynnydd mewn sŵn;

(ch) ymdrin â blaenoriaethau y mae'n rhaid eu nodi drwy roi sylw i ganllawiau a gyhoeddir yn unol â rheoliad 14;

(d) bod yn gymwys yn benodol i'r ardaloedd mwyaf pwysig fel y'u cadarnhawyd gan fapiau sŵn strategol a fabwysiadwyd yn unol â rheoliad 23; ac

(dd) bodloni'r gofynion yn Atodlen 4.

(2) Mae paragraff (3) yn gymwys i-

(a) unrhyw gynllun gweithredu; a

(b) unrhyw ddiwygiad o gynllun gweithredu,

a gaiff ei lunio o dan y Rhan hon ar gyfer crynodref.

(3) Rhaid i gynllun gweithredu ac unrhyw ddiwygiad o gynllun gweithredu gael ei seilio ar yr ardaloedd mwyaf pwysig a sefydlwyd gan y canlynol a bod yn gymwys yn benodol i'r ardaloedd hynny-

(a) pob map sŵn strategol-

(i) a wneir neu a ddiwygir yn unol â rheoliad 7, 11 neu 12 ac a fabwysiedir yn unol â rheoliad 23, a

(ii) yn ymwneud ag unrhyw ran o'r ardal y mae'r cynllun gweithredu'n ymdrin â hi; a

(b) map sŵn cyfunol.

(4) Yn y rheoliad hwn ystyr "map sŵn cyfunol" ("*consolidated noise map*") yw un map sŵn strategol sy'n gyfuniad o bob map sŵn strategol-

Action plans: general requirements

15.-(1) Any action plan drawn up or revised under this Part must-

(a) meet the objectives of Article 1(c) of the Directive;

(b) be designed to manage noise issues and effects, including noise reduction if necessary;

(c) aim to protect quiet areas in agglomerations against an increase in noise;

(d) address priorities which must be identified by having regard to guidance published pursuant to regulation 14;

(e) apply in particular to the most important areas as established by strategic noise maps adopted pursuant to regulation 23; and

(f) meet the requirements in Schedule 4.

(2) Paragraph (3) applies to-

(a) any action plan; and

(b) any revision of an action plan,

drawn up under this Part for an agglomeration.

(3) An action plan and any revision of an action plan must be based upon and apply in particular to the most important areas as established by-

(a) all strategic noise maps that-

(i) are made or revised pursuant to regulation 7, 11 or 12 and adopted pursuant to regulation 23, and

(ii) concern any part of the area addressed by the action plan; and

(b) a consolidated noise map.

(4) In this regulation "consolidated noise map" ("*map sŵn cyfunol*") means a single strategic noise map consolidated from all strategic noise maps that-

(a) a wneir neu a ddiwygir yn unol â rheoliad 7, 11 neu 12 ac a fabwysiedir yn unol â rheoliad 23; a

(b) sy'n ymwneud ag unrhyw ran o'r ardal y mae'r cynllun gweithredu'n ymdrin â hi.

(a) are made or revised pursuant to regulation 7, 11 or 12 and adopted pursuant to regulation 23; and

(b) concern any part of the area addressed by the action plan.

PENNOD 2

CYNLLUNIAU GWEITHREDU - FFYNONELLAU SŴN AC EITHRIO PRIF FEYSYDD AWYR

CHAPTER 2

ACTION PLANS - NOISE SOURCES OTHER THAN MAJOR AIRPORTS

Awdurdod Cymwys

16. Yr awdurdod cymwys o ran y Bennod hon yw'r Cynulliad.

Competent Authority

16. The competent authority for this Chapter is the Assembly.

Dyletswydd i lunio, adolygu a diwygio cynlluniau gweithredu

17.-(1) Rhaid i'r awdurdod cymwys, heb fod yn hwyrach na 18 Gorffennaf 2008, lunio cynlluniau gweithredu ar gyfer-

(a) lleoedd yn agos i brif ffyrdd cylch cyntaf;

(b) lleoedd yn agos i brif reilffyrdd cylch cyntaf; ac

(c) crynodrefi cylch cyntaf.

(2) Rhaid i'r awdurdod cymwys a hynny heb fod yn hwyrach nag 18 Gorffennaf 2013 lunio cynlluniau gweithredu ar gyfer-

(a) lleoedd yn agos i brif ffyrdd;

(b) lleoedd yn agos i brif reilffyrdd; ac

(c) crynodrefi.

(3) Mae paragraff (4) yn gymwys-

(a) pa bryd bynnag y bydd prif ddatblygiad yn digwydd ac yn effeithio ar y sefyllfa bresennol o ran swn; a

(b) pob pum mlynedd o leiaf ar ôl y dyddiad y mabwysiedir cynllun gweithredu yn unol â rheoliad 24.

(4) Rhaid i'r awdurdod cymwys-

(a) adolygu; a

(b) diwygio, os bydd angen,

y cynllun gweithredu.

Duty to draw up, review and revise action plans

17.-(1) No later than 18 July 2008 the competent authority must draw up action plans for-

(a) places near first round major roads;

(b) places near first round major railways; and

(c) first round agglomerations.

(2) No later than 18 July 2013 the competent authority must draw up action plans for-

(a) places near major roads;

(b) places near major railways; and

(c) agglomerations.

(3) Paragraph (4) applies-

(a) whenever a major development occurs affecting the existing noise situation; and

(b) at least every five years after the date on which an action plan is adopted pursuant to regulation 24.

(4) The competent authority must-

(a) review; and

(b) if necessary revise,

the action plan.

PENNOD 3

CYNLLUNIAU GWEITHREDU - PRIF FEYSYDD AWYR

Awdurdod Cymwys

18. Yr awdurdod cymwys o ran y Bennod hon yw gweithredydd y maes awyr.

Dyletswydd i lunio, adolygu a diwygio cynlluniau gweithredu

19.-(1) Rhaid i'r awdurdod cymwys heb fod yn hwyrach na 30 Ebrill 2008-

(a) llunio cynllun gweithredu ar gyfer lleoedd yn agos i'r brif faes awyr; a

(b) cyflwyno'r cynllun gweithredu hwnnw i'r Cynulliad.

(2) Dim ond os nad oedd hi'n ofynnol i'r awdurdod cymwys lunio cynllun gweithredu ar gyfer y prif faes awyr yn unol â pharagraff (1) oherwydd nad ef oedd yr awdurdod cymwys ar 30 Ebrill 2008 neu cyn hynny y mae paragraff (3) yn gymwys.

(3) Rhaid i'r awdurdod cymwys heb fod yn hwyrach na 30 Ebrill 2013-

(a) llunio cynllun gweithredu ar gyfer lleoedd yn agos i'r prif faes awyr; a

(b) cyflwyno'r cynllun gweithredu hwnnw i'r Cynulliad.

(4) Mae paragraff (5) yn gymwys-

(a) pa bryd bynnag y bydd prif ddatblygiad yn digwydd ac yn effeithio ar y sefyllfa bresennol o ran sŵn; a

(b) o leiaf bob pum mlynedd ar ôl y dyddiad y mabwysiedir cynllun gweithredu yn unol â rheoliad 24.

(5) Rhaid i'r awdurdod cymwys-

(a) adolygu; a

(b) diwygio, os bydd angen,

y cynllun gweithredu.

(6) Rhaid cyflwyno i'r Cynulliad gynllun gweithredu wedi'i ddiwygio'n unol â pharagraff (5)(b) a hynny o fewn tri diwrnod gwaith i'w ddiwygio.

CHAPTER 3

ACTION PLANS - MAJOR AIRPORTS

Competent Authority

18. The competent authority for this Chapter is the airport operator.

Duty to draw up, review and revise action plans

19.-(1) No later than 30 April 2008 the competent authority must-

(a) draw up an action plan for places near the major airport; and

(b) submit that action plan to the Assembly.

(2) Paragraph (3) only applies if the competent authority was not required to draw up an action plan for the major airport pursuant to paragraph (19 because it was not the competent authority on or before 30 April 2008.

(3) No later than 30 April 2013 the competent authority must-

(a) draw up an action plan for places near the major airport; and

(b) submit that action plan to the Assembly.

(4) Paragraph (5) applies-

(a) whenever a major development occurs affecting the existing noise situation; and

(b) at least every five years after the date on which an action plan is adopted pursuant to regulation 24.

(5) The competent authority must-

(a) review; and

(b) if necessary revise,

the action plan.

(6) An action plan revised pursuant to paragraph (5)(b) must be submitted to the Assembly within three working days of its revision.

PENNOD 4

CYNLLUNIAU GWEITHREDU - CYFRANOGIAD CYHOEDDUS

Cyfranogiad cyhoeddus

20.-(1) Rhaid i awdurdodau cymwys, wrth baratoi a diwygio cynlluniau gweithredu o dan reoliadau 16 ac 18 sicrhau-

(a) yr ymgynghorir â'r cyhoedd ynghylch cynigion ar gyfer cynlluniau gweithredu;

(b) y rhoddir i'r cyhoedd gyfleoedd cynnar ac effeithiol i gymryd rhan yn y gwaith o baratoi ac adolygu'r cynlluniau gweithredu;

(c) y rhoddir sylw i ganlyniadau'r cyfranogiad cyhoeddus hwnnw;

(ch) y rhoddir gwybod i'r cyhoedd am y penderfyniadau a wneir; a

(d) y darperir amserlenni rhesymol yn caniatáu digon o amser ar gyfer pob cam o gyfranogiad y cyhoedd.

CHAPTER 4

ACTION PLANS - PUBLIC PARTICIPATION

Public participation

20.-(1) In preparing and revising action plans the competent authorities under regulations 16 and 18 must ensure that-

(a) the public is consulted about proposals for action plans;

(b) the public is given early and effective opportunities to participate in the preparation and review of the action plans;

(c) the results of that public participation are taken into account;

(d) the public is informed of the decisions taken; and

(e) reasonable time frames are provided allowing sufficient time for each stage of public participation.

PENNOD 5

RHOI CYNLLUNIAU GWEITHREDU AR WAITH

Rhoi cynlluniau gweithredu ar waith

21.-(1) Os bydd cynllun gweithredu neu ddiwygiad o gynllun gweithredu-

(a) wedi'i fabwysiadu yn unol â rheoliad 24; a

(b) yn nodi bod awdurdod cyhoeddus yn gyfrifol am weithred benodol,

rhaid i'r awdurdod cyhoeddus hwnnw drin y cynllun gweithredu fel pe bai'n bolisi iddo i'r graddau y mae'n ymwneud â'r weithred honno.

(2) Caiff awdurdod cyhoeddus wyro oddi wrth unrhyw bolisi a grybwyllir ym mharagraff (1)-

(a) os yw'n darparu ar gyfer-

(i) y Cynulliad, a

(ii) yr awdurdod cymwys sy'n gyfrifol am baratoi'r cynllun gweithredu neu'r diwygiad (os nad y Cynulliad sy'n gyfrifol am hynny),

o roi rhesymau ysgrifenedig am wyro oddi wrth y polisi hwnnw; a

(b) os yw'n cyhoeddi'r rhesymau hynny.

CHAPTER 5

IMPLEMENTATION OF ACTION PLANS

Implementation of action plans

21.-(1) Where an action plan or a revision of an action plan-

(a) has been adopted pursuant to regulation 24; and

(b) identifies a public authority as responsible for a particular action,

that public authority must treat the action plan as its policy insofar as it relates to that action.

(2) A public authority may depart from any policy mentioned in paragraph (1) if-

(a) it provides-

(i) the Assembly, and

(ii) the competent authority responsible for the preparation of the action plan or the revision (if not the Assembly),

with written reasons for departing from that policy; and

(b) it publishes those reasons.

(3) Yn y rheoliad hwn mae "awdurdod cyhoeddus" ("*public authority*") yn cynnwys unrhyw berson sy'n arfer swyddogaethau o natur gyhoeddus, ond nid yw'n cynnwys-

(a) Tŷ'r Cyffredin na Thŷ'r Arglwyddi na pherson sy'n arfer swyddogaethau mewn cysylltiad â thrafodion yn y Senedd yn Llundain;

(b) llysoedd na thribiwnlysoedd; nac

(c) y Cynulliad.

(3) In this regulation "public authority" ("*awdurdod cyhoeddus*") includes any person who exercises functions of a public nature, but does not include-

(a) either House of Parliament or a person exercising functions in connection with proceedings in Parliament;

(b) courts or tribunals; or

(c) the Assembly.

RHAN 5

CYDWEITHIO AG AWDURDODAU CYMWYS ALLANOL

Cydweithio ag awdurdodau cymwys allanol

22.-(1) Pan fydd angen hynny er mwyn iddo fodloni ei rwymedigaethau o dan y Rheoliadau hyn, rhaid i awdurdod cymwys wneud pob ymdrech resymol i sicrhau cydweithrediad awdurdod cymwys allanol.

(2) Rhaid i awdurdod cymwys-

(a) pan ofynnir iddo wneud hynny gan awdurdod cymwys allanol; a

(b) os oes angen hynny er mwyn iddo fodloni rhwymedigaethau'r awdurdod cymwys hwnnw sy'n deillio o dan y Gyfarwyddeb,

gydweithredu â'r awdurdod cymwys allanol hwnnw.

(3) Yn y Rhan hon ystyr "awdurdod cymwys allanol" ("*external competent authority*") yw awdurdod cymwys yng Ngogledd Iwerddon, yr Alban, neu yn Lloegr a ddynodwyd at ddibenion Erthygl 4 o'r Gyfarwyddeb.

PART 5

COOPERATION WITH EXTERNAL COMPETENT AUTHORITIES

Cooperation with external competent authorities

22.-(1) When necessary in order to meet its obligations under these Regulations, a competent authority must use all reasonable endeavours to secure the cooperation of an external competent authority.

(2) A competent authority-

(a) when requested to do so by an external competent authority; and

(b) if necessary to meet that external competent authority's obligations arising under the Directive,

must cooperate with that external competent authority.

(3) In this Part "external competent authority" ("*awdurdod cymwys allanol*") means a competent authority in Northern Ireland, Scotland or England designated for the purposes of Article 4 of the Directive.

RHAN 6

MABWYSIADU MAPIAU SŴN STRATEGOL A CHYNLLUNIAU GWEITHREDU

Mabwysiadu mapiau sŵn strategol

23.-(1) Os yw'r Cynulliad o'r farn bod map sŵn strategol-

(a) a gyflwynwyd iddo yn unol â rheoliad 11 neu 12;

(b) a gyflwynwyd iddo yn unol â pharagraff (4); neu

(c) a wnaed neu a ddiwygiwyd ganddo,

yn bodloni gofynion rheoliad (4), rhaid iddo

PART 6

ADOPTION OF STRATEGIC NOISE MAPS AND ACTION PLANS

Adoption of strategic noise maps

23.-(1) If the Assembly considers that a strategic noise map-

(a) submitted to it pursuant to regulation 11 or 12;

(b) submitted to it pursuant to paragraph (4); or

(c) made or revised by it,

meets the requirements of regulation 4, it must adopt

fabwysiadu'r map.

(2) Os yw'r Cynulliad o'r farn nad yw map sŵn strategol a gyflwynir iddo yn unol â rheoliad 11 neu 12 neu baragraff (4) yn bodloni'r gofynion yn rheoliad 4 caiff-

(a) gwneud newidiadau i'r map a'i fabwysiadu; neu

(b) gwrthod y map.

(3) Os gwrthodir map sŵn strategol yn unol â pharagraff (2)(b) rhaid i'r Cynulliad hysbysu'r awdurdod cymwys a'i cyflwynodd-

(a) o'r rheswm pam na fabwysiadwyd y map; a

(b) o'r dyddiad erbyn pryd y mae'n rhaid diwygio'r map a'i ailgyflwyno.

(4) Rhaid i'r sawl sy'n derbyn hysbysiad o dan baragraff (3) gyflwyno'r map sŵn strategol sydd wedi'i ddiwygio i'r Cynulliad erbyn y dyddiad a bennir yn yr hysbysiad.

(5) Mae paragraffau (1) i (4) yn gymwys i fap sŵn strategol sydd wedi'i ddiwygio fel y maent yn gymwys i fap sŵn strategol a gyflwynir yn unol â rheoliad 11 neu 12.

(6) Os yw'r Cynulliad yn gwneud newidiadau i-

(a) map sŵn strategol; neu

(b) map sŵn strategol sydd wedi'i ddiwygio,

rhaid iddo gymryd y cyfryw gamau y mae o'r farn eu bod yn briodol er mwyn sicrhau bod y map yn cydymffurfio â gofynion rheoliad 4.

Mabwysiadu cynlluniau gweithredu

24.-(1) Os yw'r Cynulliad o'r farn bod cynllun gweithredu-

(a) a gyflwynir iddo yn unol â rheoliad 19(1)(b), 19(3)(b) neu 19(6);

(b) a gyflwynir iddo yn unol â pharagraff (5); neu

(c) a lunnir neu a ddiwygir ganddo,

yn bodloni gofynion rheoliad 15, caiff fabwysiadu'r cynllun gweithredu.

(2) Mae paragraff (3) yn gymwys-

(a) os yw'r Cynulliad o'r farn nad yw cynllun gweithredu a gyflwynir iddo yn unol â rheoliad 19(1)(b), 19(3)(b) neu 19(6) yn bodloni gofynion rheoliad 15; neu

(b) os na fabwysiedir cynllun gweithredu yn unol â pharagraff (1).

(3) Pan fydd y paragraff hwn yn gymwys rhaid i'r Cynulliad-

(a) wneud newidiadau i'r cynllun a'i fabwysiadu; neu

the map.

(2) If the Assembly considers that a strategic noise map submitted to it pursuant to regulation 11 or 12 or paragraph (4) does not meet the requirements of regulation 4 it may-

(a) amend and adopt the map; or

(b) reject the map.

(3) If a strategic noise map is rejected pursuant to paragraph (2)(b) the Assembly must notify the competent authority that submitted it of-

(a) the reasons why the map was not adopted; and

(b) the date by which the map must be revised and resubmitted.

(4) The recipient of a notification under paragraph (3) must submit the revised strategic noise map to the Assembly by the date specified in the notification.

(5) Paragraphs (1) to (4) apply to a revised strategic noise map as they apply to a strategic noise map submitted pursuant to regulation 11 or 12.

(6) If the Assembly amends-

(a) a strategic noise map; or

(b) a revised strategic noise map,

it must take such steps as it considers appropriate for ensuring that the map complies with the requirements of regulation 4.

Adoption of action plans

24.-(1) If the Assembly considers that an action plan-

(a) submitted to it pursuant to regulation 19(1)(b), 19(3)(b) or 19(6);

(b) submitted to it pursuant to paragraph (5); or

(c) drawn up or revised by it,

meets the requirements of regulation 15, it may adopt the action plan.

(2) Paragraph (3) applies if-

(a) the Assembly considers that an action plan submitted to it pursuant to regulation 19(1)(b), 19(3)(b) or 19(6) does not meet the requirements of regulation 15; or

(b) an action plan is not adopted pursuant to paragraph (1).

(3) Where this paragraph applies the Assembly must-

(a) amend and adopt the plan; or

(b) gwrthod y cynllun.

(4) Os gwrthodir cynllun gweithredu yn unol â pharagraff (3)(b) rhaid i'r Cynulliad hysbysu'r awdurdod cymwys a'i cyflwynodd-

(a) o'r rheswm pam na chafodd y cynllun ei fabwysiadu; a

(b) o'r dyddiad erbyn pryd y mae'n rhaid diwygio ac ailgyflwyno'r cynllun.

(5) Rhaid i'r sawl sy'n derbyn hysbysiad o dan baragraff (4) gyflwyno'r cynllun gweithredu sydd wedi'i ddiwygio i'r Cynulliad erbyn y dyddiad a bennir yn yr hysbysiad.

(6) Mae paragraffau (1) i (5) yn gymwys i gynllun gweithredu sydd wedi'i ddiwygio fel y maent yn gymwys i gynllun gweithredu a gyflwynir yn unol â rheoliad 19(1)(b), 19(3)(b) neu 19(6).

(7) Os yw'r Cynulliad yn gwneud newidiadau i-

(a) cynllun gweithredu; neu

(b) cynllun gweithredu sydd wedi'i ddiwygio,

rhaid iddo gymryd y cyfryw gamau y mae o'r farn eu bod yn briodol er mwyn sicrhau bod y cynllun gweithredu'n cydymffurfio â gofynion y Rheoliadau hyn.

(b) reject the plan.

(4) If an action plan is rejected pursuant to paragraph (3)(b) the Assembly must notify the competent authority that submitted it of-

(a) the reasons why the plan was not adopted; and

(b) the date by which the plan must be revised and resubmitted.

(5) The recipient of a notification under paragraph (4) must submit the revised action plan to the Assembly by the date specified in the notification.

(6) Paragraphs (1) to (5) apply to a revised action plan as they apply to an action plan submitted pursuant to regulation 19(1)(b), 19(3)(b) or 19(6).

(7) If the Assembly amends-

(a) an action plan; or

(b) a revised action plan,

it must take such steps as it considers appropriate for ensuring that the action plan complies with the requirements of these Regulations.

RHAN 7

PWERAU'R CYNULLIAD MEWN PERTHYNAS Â SWYDDOGAETHAU AWDURDODAU CYMWYS ERAILL

Cymhwyso

25. Nid yw'r Rhan hon yn gymwys i unrhyw swyddogaethau o dan y Rheoliadau hyn os y Cynulliad yw'r awdurdod cymwys ar eu cyfer.

Pwerau

26.-(1) Caiff y Cynulliad ar unrhyw adeg ei gwneud yn ofynnol i awdurdod cymwys ddarparu gwybodaeth mewn perthynas â'i swyddogaethau o dan y Rheoliadau hyn.

(2) O ran cais am wybodaeth yn unol â pharagraff (1)-

(a) rhaid iddo gael ei wneud yn ysgrifenedig;

(b) caiff bennu ar ba fformat y mae'n rhaid darparu gwybodaeth; ac

(c) caiff bennu o fewn pa gyfnod o amser y mae'n rhaid i ymateb ddod i law.

(3) Os bydd cais yn dod i law awdurdod yn unol â pharagraff (1) rhaid iddo ymateb-

PART 7

POWERS OF THE ASSEMBLY IN RELATION TO THE FUNCTIONS OF OTHER COMPETENT AUTHORITIES

Application

25. This Part does not apply to any functions under these Regulations for which the Assembly is the competent authority.

Powers

26.-(1) The Assembly may at any time require a competent authority to provide information in relation to its functions under these Regulations.

(2) A request for information pursuant to paragraph (1)-

(a) must be made in writing;

(b) may specify the format in which information must be provided; and

(c) may specify the period of time within which a response must be received.

(3) If an authority receives a request pursuant to paragraph (1) it must respond-

(a) o fewn y cyfnod o amser a bennir yn unol â pharagraff (2)(c); neu

(b) os na phennir y cyfryw gyfnod, o fewn pedwar diwrnod ar ddeg i dderbyn y cais.

(4) Mae paragraff (5) yn gymwys-

(a) pan fydd y Cynulliad wedi ymgynghori â'r awdurdod cymwys; a

(b) pan fydd o'r farn oherwydd unrhyw weithred neu ddiffyg gweithredu, neu unrhyw weithred debygol neu ddiffyg gweithredu tebygol gan yr awdurdod cymwys fod-

(i) un o ofynion y Rheoliadau hyn; neu

(ii) gofyniad a osodwyd ar y Deyrnas Unedig gan y Gyfarwyddeb,

yn annhebygol o gael ei fodloni.

(5) Caiff y Cynulliad arfer y cyfryw swyddogaethau hynny o blith swyddogaethau'r awdurdod cymwys ag y mae o'r farn eu bod yn briodol.

Adennill treuliau

27.-(1) Os bydd y Cynulliad yn tynnu treuliau yn unol â-

(a) rheoliad 23(2);

(b) rheoliad 24(3); neu

(c) rheoliad 26(5),

caiff adennill y treuliau hynny oddi wrth yr awdurdod cymwys perthnasol ar ffurf dyled sifil.

(2) Yn y rheoliad hwn ystyr "awdurdod cymwys perthnasol" ("*relevant competent authority*")-

(a) mewn perthynas â rheoliad 23(2), yw'r awdurdod cymwys a gyflwynodd y map swn strategol yn unol â rheoliad 11 neu 12;

(b) mewn perthynas â rheoliad 24(3), yw'r awdurdod cymwys a gyflwynodd y cynllun gweithredu yn unol â rheoliad 19; ac

(c) mewn perthynas â rheoliad 26(5), yw'r awdurdod cymwys y mae'r Cynulliad yn arfer ei swyddogaethau yn unol â'r rheoliad hwnnw.

(a) within the time period specified pursuant to paragraph (2)(c); or

(b) if no such period is specified, within fourteen days of receipt of the request.

(4) Paragraph (5) applies where-

(a) the Assembly has consulted the competent authority; and

(b) it considers that by reason of any act or omission, or any likely act or omission, by the competent authority-

(i) a requirement of these Regulations; or

(ii) a requirement imposed on the United Kingdom by the Directive,

is unlikely to be met.

(5) The Assembly may exercise such of the functions of the competent authority as it considers appropriate.

Recovery of expenses

27.-(1) Where the Assembly incurs expenses pursuant to-

(a) regulation 23(2);

(b) regulation 24(3); or

(c) regulation 26(5),

it may recover those expenses from the relevant competent authority as a civil debt.

(2) In this regulation "relevant competent authority" ("*awdurdod cymwys perthnasol*") means-

(a) in relation to regulation 23(2), the competent authority that submitted the strategic noise map pursuant to regulation 11 or 12;

(b) in relation to regulation 24(3), the competent authority that submitted the action plan pursuant to regulation 19; and

(c) in relation to regulation 26(5), the competent authority whose functions the Assembly exercises pursuant to that regulation.

RHAN 8

GWYBODAETH I'R CYHOEDD

Awdurdod Cymwys

28. Yr awdurdod cymwys o ran y Rhan hon yw'r Cynulliad.

PART 8

INFORMATION TO THE PUBLIC

Competent Authority

28. The competent authority for this Part is the Assembly.

Argaeledd mapiau sŵn strategol a chynlluniau gweithredu

29.-(1) Rhaid i unrhyw-

(a) map sŵn strategol y sicrheir ei fod ar gael i'r cyhoedd cyn iddo gael ei fabwysiadu'n unol â rheoliad 23; neu

(b) cynllun gweithredu y sicrheir ei fod ar gael i'r cyhoedd cyn iddo gael ei fabwysiadu'n unol â rheoliad 24,

gynnwys, a hynny mewn lle amlwg, eiriau yn nodi mai drafft ydyw hyd oni chaiff ei fabwysiadu gan y Cynulliad.

(2) Rhaid i unrhyw-

(a) map sŵn strategol a gaiff ei fabwysiadu'n unol â rheoliad 23; neu

(b) cynllun gweithredu a gaiff ei fabwysiadu'n unol â rheoliad 24,

gael ei gyhoeddi gan yr awdurdod cymwys yn unol â gofynion paragraff (3).

(3) O ran map sŵn strategol neu gynllun gweithredu a gyhoeddir yn unol â pharagraff (2)-

(a) rhaid bod crynodeb yn mynd gydag ef sy'n nodi'r pwyntiau pwysicaf;

(b) rhaid ei arddangos ar wefan y Cynulliad;

(c) rhaid iddo fod ar gael i'w archwilio yn ystod oriau swyddfa arferol ym mhrif swyddfa'r Cynulliad; ac

(ch) rhaid ei gyflenwi am ffi resymol pan ofynnir amdano.

RHAN 9

CANLLAWIAU

30. Rhaid i awdurdod cymwys, wrth arfer unrhyw un neu rai o'i swyddogaethau o dan y Rheoliadau hyn, roi sylw i unrhyw ganllawiau a ddyroddir gan y Cynulliad o dan y rheoliad hwn.

Llofnodwyd ar ran Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan adran 66(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998(**1**).

3 Hydref 2006

Availability of strategic noise maps and action plans

29.-(1) Any-

(a) strategic noise map that is made available to the public before it is adopted pursuant to regulation 23; or

(b) action plan that is made available to the public before it is adopted pursuant to regulation 24,

must include prominently displayed wording identifying it as a draft subject to adoption by the Assembly.

(2) Any-

(a) strategic noise map adopted pursuant to regulation 23; or

(b) action plan adopted pursuant to regulation 24,

must be published by the competent authority in accordance with the requirements of paragraph (3).

(3) A strategic noise map or an action plan published pursuant to paragraph (2) must be-

(a) accompanied by a summary setting out the most important points;

(b) displayed on the Assembly's website;

(c) made available for inspection during normal office hours at the Assembly's principal office; and

(d) supplied upon request for a reasonable charge.

PART 9

GUIDANCE

30. A competent authority, in exercising any of its functions under these Regulations, must have regard to any guidance issued by the Assembly under this regulation.

Signed on behalf of the National Assembly for Wales under section 66(1) of the Government of Wales Act 1998(**1**).

3 October 2006

D. Elis-Thomas

Llywydd y Cynulliad Cenedlaethol

The Presiding Officer of the National Assembly

(**1**) 1998 p.38.

(**1**) 1998 c.38.

ATODLEN 1

rheoliadau 4 a 9

Y LLEIAF O'R GOFYNION AR GYFER MAPIO SŴN STRATEGOL

Dehongli

1. Yn yr Atodlen hon-

ystyr "grid" ("*grid*") yw grid o bwyntiau fector-

(a) a chanddynt fylchau 10 metr wrth 10 metr rhyngddynt,

(b) a chanddynt gyfeiriad gofodol i system gyfeirio'r Grid Cenedlaethol Prydeinig a ddefnyddir gan yr Arolwg Ordnans, a hynny fel pâr o gyfanrifau i ddangos mewn metrau Ddwyreiniau ac yna Ogleddiadau o'r tarddiad, ac

(c) sydd wedi'u halinio â fertigau 10 metr system gyfeirio'r Grid Cenedlaethol Prydeinig a ddefnyddir gan yr Arolwg Ordnans a hynny fel bod y cyfeiriadau'n diweddu â'r rhif sero;

ystyr "y gellir eu golygu" ("*editable*") yw eu bod ar fformat sy'n caniatáu cynhyrchu'n electronig (heb fod angen trin y fformat)-

(a) data rhifiadol mewn tablau, a

(b) plotiau graffigol,

er mwyn arddangos yr wybodaeth a ddisgrifir ym mharagraffau 1.5, 1.6, 1.7, 2.5, 2.6 a 2.7 o Atodiad VI i'r Gyfarwyddeb.

Gofynion cyffredinol ar gyfer mapiau sŵn strategol

2.-(1) Rhaid i fapiau sŵn strategol a'u diwygiadau-

(a) bodloni'r lleiaf o'r gofynion a osodir yn Atodiad IV i'r Gyfarwyddeb; a

(b) bod yn glir ac yn ddealladwy.

(2) Wrth gymhwyso paragraff 1(a) mae unrhyw gyfeiriad yn Atodiad IV i'r Gyfarwyddeb at-

(a) Erthygl 8 o'r Gyfarwyddeb i'w ystyried yn gyfeiriad at reoliadau 15, 17 ac 19 o'r Rheoliadau hyn;

(b) Erthygl 9 o'r Gyfarwyddeb i'w ystyried yn gyfeiriad at reoliad 29 o'r Rheoliadau hyn.

SCHEDULE 1

regulations 4 and 9

MINIMUM REQUIREMENTS FOR STRATEGIC NOISE MAPPING

Interpretation

1. In this Schedule-

"editable" ("*y gellir eu golygu*") means in a format that allows (without the need for manipulation) the electronic production of-

(a) numerical data in tables, and

(b) graphical plots,

to display the information described in paragraphs 1.5, 1.6, 1.7, 2.5, 2.6 and 2.7 of Annex VI of the Directive;

"grid" ("grid") means a grid of vector points which are-

(a) at 10 metre by 10 metre intervals,

(b) spatially referenced to the British National Grid reference system used by the Ordnance Survey as a pair of integers to show Eastings then Northings in metres from the origin, and

(c) aligned with the 10 metre vertices of the British National Grid reference system used by the Ordnance Survey so that references finish with the number zero.

General requirements for strategic noise maps

2.-(1) Strategic noise maps and their revisions must-

(a) satisfy the minimum requirements laid down in Annex IV of the Directive; and

(b) be clear and comprehensible.

(2) In applying paragraph (1)(a) any reference in Annex IV of the Directive to-

(a) Article 8 of the Directive is to be taken to be a reference to regulations 15, 17 and 19 of these Regulations;

(b) Article 9 of the Directive is to be taken to be a reference to regulation 29 of these Regulations.

Gofynion ar gyfer mapiau sŵn strategol i grynodrefi

3.-(1) Dim ond i'r canlynol y mae'r paragraff hwn yn gymwys-

(a) map sŵn strategol a wnaed o dan reoliad 7(1)(a), 7(2)(a), 12(1) neu 12(2); neu

(b) diwygiad o'r cyfryw fap sŵn strategol.

(2) Rhaid i fapiau sŵn strategol-

(a) cynnwys (ar fformat electronig) yr wybodaeth a ddisgrifir ym mharagraffau 1.1 i 1.4 yn gynhwysol o Atodiad VI i'r Gyfarwyddeb; a

(b) cynnwys ar fformat electronig ddata rhifiadol y gellir eu golygu sy'n cynnwys y gwerthoedd Lden, Lnight a'r dangosyddion sŵn atodol ar grid.

Requirements for strategic noise maps for agglomerations

3.-(1) This paragraph applies only to-

(a) a strategic noise map made under regulation 7(1)(a), 7(2)(a), 12(1) or 12(2); or

(b) a revision of such a strategic noise map.

(2) Strategic noise maps must-

(a) include the information (in electronic format) described in paragraphs 1.1 to 1.4 inclusive of Annex VI of the Directive; and

(b) include editable numerical data in electronic form containing the values of Lden, Lnight and the supplementary noise indicators on a grid.

Gofynion ar gyfer mapiau sŵn strategol i brif ffyrdd, prif reilffyrdd a phrif feysydd awyr

4.-(1) Dim ond i'r canlynol y mae'r paragraff hwn yn gymwys-

(a) unrhyw fap sŵn strategol a wnaed o dan-

(i) rheoliad 7(1)(b) i (ch),

(ii) rheoliad 7(2)(b) i (ch),

(iii) rheoliad 11(2); neu

(b) unrhyw ddiwygiad o'r cyfryw fap.

(2) Rhaid i fapiau sŵn strategol-

(a) cynnwys yr wybodaeth (ar fformat electronig) a ddisgrifir ym mharagraffau 2.1 i 2.4 yn gynhwysol o Atodiad VI i'r Gyfarwyddeb; a

(b) cynnwys ar fformat electronig ddata rhifiadol y gellir eu golygu sy'n cynnwys gwerthoedd Lden, Lnight a'r dangosyddion sŵn atodol ar grid.

Requirements for strategic noise maps for major roads, major railways and major airports

4.-(1) This paragraph applies only to-

(a) any strategic noise map made under-

(i) regulation 7(1)(b) to (d),

(ii) regulation 7(2)(b) to (d),

(iii) regulation 11(2); or

(b) any revision of such a map.

(2) Strategic noise maps must-

(a) include the information (in electronic format) described in paragraphs 2.1 to 2.4 inclusive of Annex VI of the Directive; and

(b) include editable numerical data in electronic form containing the values of Lden, Lnight and the supplementary noise indicators on a grid.

ATODLEN 2

rheoliad 4

DULLIAU ASESU AR GYFER DANGOSYDDION SŴN

Rhagarweiniad

1.-(1) Rhaid canfod gwerthoedd Lden, Lnight a'r dangosyddion sŵn atodol drwy gyfrifiannu (yn y safle asesu).

(2) Yn yr Atodlen hon-

ystyr "Argymhelliad" ("*Recommendation*") yw Argymhelliad y Comisiwn 2003/613/EC dyddiedig 6 Awst 2003 ynghylch y canllawiau ar ddulliau cyfrifiannu interim diwygiedig ar gyfer sŵn diwydiannol, sŵn awyrennau, sŵn traffig ffyrdd a sŵn rheilffyrdd, a data gollyngiadau perthynol(**1**);

ystyr "safle asesu" ("*assessment position*") yw'r uchder asesu ym mharagraff 7 o Atodiad IV i'r Gyfarwyddeb.

Dull asesu ar gyfer dangosyddion sŵn traffig ffyrdd

2. Ar gyfer dangosyddion traffig ffyrdd rhaid defnyddio'r dull asesu "Calculation of road traffic noise" (Yr Adran Drafnidiaeth, 7 Mehefin 1988, Y Llyfrfa)(**2**) wedi'i addasu gan ddefnyddio'r adroddiad "Method for converting the UK road traffic noise index LA10,18h to the EU noise indeces for road noise mapping" (DEFRA, 24 Ionawr 2006)(**3**).

Dull asesu ar gyfer dangosyddion swn rheilffyrdd

3. Ar gyfer dangosyddion sŵn rheilffyrdd rhaid defnyddio'r dull asesu "Calculation of railway noise" (Yr Adran Drafnidiaeth, 13 Gorffennaf 1995, Y Llyfrfa)(**4**) wedi'i addasu fel a welir yn Ffigur 6.5 yn yr adroddiad "Rail and wheel roughness - implications for noise mapping based on the Calculation of Railway Noise procedure" (DEFRA, Mawrth 2004)(**5**).

(**1**) O.J. Rhif L212, 22.8.2003, t. 49.

(**2**) ISBN 0115508473.

(**3**) Paratowyd gan TRL Limited a Casella Stanger, Cyfeirnod y Ddogfen st/05/91/AGG04442.

(**4**) ISBN 0115517545.

(**5**) Paratowyd gan AEA Technology plc, Cyfeirnod y Ddogfen: AEATR-PC&E-2003-002.

SCHEDULE 2

regulation 4

ASSESSMENT METHODS FOR THE NOISE INDICATORS

Introduction

1.-(1) The values of Lden, Lnight and the supplementary noise indicators must be determined by computation (at the assessment position).

(2) In this Schedule-

"assessment position" ("*safle asesu*") means the assessment height in paragraph 7 of Annex IV of the Directive;

"Recommendation" ("*Argymhelliad*") means Commission Recommendation 2003/613/EC of 6 August 2003 concerning the guidelines on the revised interim computation methods for industrial noise, aircraft noise, road traffic noise and railway noise, and related emissions data(**1**).

Assessment method for road traffic noise indicators

2. For road traffic noise indicators the assessment method "Calculation of road traffic noise" (Department of Transport, 7 June 1988, HMSO)(**2**) must be used, adapted using the report "Method for converting the UK road traffic noise index LA10,18h to the EU noise indices for road noise mapping" (DEFRA, 24 January 2006)(**3**).

Assessment method for railway noise indicators

3. For railway noise indicators the assessment methods "Calculation of railway noise" (Department of Transport, 13 July 1995, HMSO)(**4**) must be used, adapted as shown in Figure 6.5 of the report "Rail and wheel roughness - implications for noise mapping based on the Calculation of Railway Noise procedure" (DEFRA, March 2004)(**5**).

(**1**) O.J. No. L 212, 22.8.2003, p. 49.

(**2**) ISBN 0115508473.

(**3**) Prepared by TRL Limited and Casella Stanger, Document Reference st/05/91/AGG04442.

(**4**) ISBN 0115517545.

(**5**) Prepared by AEA Technology plc, Document Reference: AEATR-PC&E-2003-002.

Dulliau asesu ar gyfer dangosyddion sŵn awyrennau

4. Ar gyfer sŵn awyrennau rhaid defnyddio'r dull asesu "Report on Standard Method of Computing Noise Contours around Civil Airports" (Ailargraffiad, Y Gynhadledd Ewropeaidd ar Hedfan Sifil, 2-3 Gorffennaf 1997)(**1**) a hynny'n unol â pharagraff 2.4 o'r Atodiad i'r Argymhelliad.

Dulliau asesu ar gyfer dangosyddion sŵn diwydiannol a dangosyddion sŵn porthladdoedd

5.-(1) Ar gyfer dangosyddion sŵn diwydiannol a dangosyddion sŵn porthladdoedd rhaid defnyddio'r dull lledaenu o asesu a ddisgrifir yn "ISO 9613-2:1996 Acoustics - Attenuation of sound during propagation outdoors - Part 2: General method of calculation" (International Standards Organisation, 1996) a hynny'n unol â pharagraff 2.5 o'r Atodiad i'r Argymhelliad.

(2) Gellir cael data gollyngiadau sŵn addas (data mewnbwn) ar gyfer "ISO 9613-2:1996 Acoustics - Attenuation of sound during propagation outdoors - Part 2: General method of calculation" naill ai o fesuriadau a wneir yn unol ag un o'r dulliau canlynol:

(a) "Acoustics. Determination of sound power levels of multisource industrial plants for evaluation of sound pressure levels in the environment. Engineering method" (BS ISO 8297:1994, Y Sefydliad Safonau Prydeinig);

(b) "Acoustics. Determination of sound power levels of noise sources using sound pressure. Engineering method in an essentially free field over a reflecting plane" (BS EN ISO 3744: 1995, Y Sefydliad Safonau Prydeinig);

(c) "Acoustics. Determination of sound power levels of noise sources using sound pressure. Survey method using an enveloping measurement surface over a reflecting plane" (BS EN ISO 3746:1996, Y Sefydliad Safonau Prydeinig),

neu drwy ddefnyddio Arweinlyfr 10 o "Good Practice Guide for Strategic Noise Mapping and the Production of Associated Data on Noise Exposure Version 2, Position Paper Final Draft" (Asesiad Gweithgor y Comisiwn Ewropeaidd o Fod o Fewn Clyw i Sŵn, 13 Ionawr 2006).

(**1**) Mabwysiadwyd gan Unfed Cyfarfod Llawn ar Hugain ECAC, Cyfeirnod y Ddogfen: ECAC.CEAC Doc. 29.

Assessment methods for aircraft noise indicators

4. For aircraft noise indicators the assessment method "Report on Standard Method of Computing Noise Contours around Civil Airports" (Second Edition, European Civil Aviation Conference, 2-3 July 1997)(**1**) must be used in accordance with paragraph 2.4 of the Annex in the Recommendation.

Assessment methods for industrial noise indicators and port noise indicators

5.-(1) For industrial noise indicators and port noise indicators the propagation assessment method described in "ISO 9613-2:1996 Acoustics - Attenuation of sound during propagation outdoors - Part 2: General method of calculation" (International Standards Organisation, 1996) must be used in accordance with paragraph 2.5 of the Annex in the Recommendation.

(2) Suitable noise emission data (input data) for "ISO 9613-2:1996 Acoustics - Attenuation of sound during propagation outdoors - Part 2: General method of calculation" can be obtained either from measurements carried out in accordance with one of the following methods:

(a) "Acoustics. Determination of sound power levels of multisource industrial plants for evaluation of sound pressure levels in the environment. Engineering method" (BS ISO 8297:1994, British Standards Institute);

(b) "Acoustics. Determination of sound power levels of noise sources using sound pressure. Engineering method in an essentially free field over a reflecting plane" (BS EN ISO 3744:1995, British Standards Institute);

(c) "Acoustics. Determination of sound power levels of noise sources using sound pressure. Survey method using an enveloping measurement surface over a reflecting plane" (BS EN ISO 3746:1996, British Standards Institute),

or by using Toolkit 10 of the "Good Practice Guide for Strategic Noise Mapping and the Production of Associated Data on Noise Exposure Version 2, Position Paper Final Draft" (European Commission Working Group Assessment of Exposure to Noise, 13 January 2006).

(**1**) Adopted by the Twenty-First Plenary Session of ECAC, Document Reference: ECAC.CEAC Doc. 29.

ATODLEN 3

rheoliad 4

DANGOSYDDION SŴN ATODOL

Dehongli

1. Yn yr Atodlen hon-

"LA10, 18h" yw'r lefel sŵn cymedr rhifyddol mewn dB(A) yr aed y tu hwnt iddi am 10% o bob awr dros y cyfnod 06:00 - 24:00 o'r gloch;

"LAeq, 16h" yw'r lefel sŵn parhaus cyfatebol mewn dB(A) sydd, dros y cyfnod 07:00 - 23:00 o'r gloch, yn cynnwys yr un ynni sŵn â'r gwir sŵn amrywiol a oedd i'w glywed yn y cyfnod hwnnw;

"LAeq, 18h" yw'r lefel sŵn parhaus cyfatebol mewn dB(A) sydd, dros y cyfnod 06:00 - 24:00 o'r gloch, yn cynnwys yr un egni sŵn â'r gwir sŵn amrywiol a oedd i'w glywed yn y cyfnod hwnnw;

"LAeq, 6h" yw'r lefel sŵn parhaus cyfatebol mewn dB(A) sydd, dros y cyfnod 24:00 - 06:00 o'r gloch, yn cynnwys yr un egni sŵn â'r gwir sŵn amrywiol a oedd i'w glywed yn y cyfnod hwnnw.

Swn Traffig Ffyrdd

2. Y dangosyddion sŵn atodol mewn perthynas â sŵn traffig ffyrdd yw

(a) LA10,18h;

(b) LAeq, 16h;

(c) Lday; ac

(ch) Levening.

Sŵn Rheilffyrdd

3. Y dangosyddion sŵn atodol mewn perthynas â sŵn rheilffyrdd yw-

(a) LAeq, 16h;

(b) LAeq, 18h;

(c) LAeq,6h;

(ch) Lday; a

(d) Levening.

Sŵn Awyrennau

4. Y dangosyddion sŵn atodol mewn perthynas â sŵn awyrennau yw-

(a) LAeq, 16h;

(b) Lday; ac

(c) Levening.

SCHEDULE 3

regulation 4

SUPPLEMENTARY NOISE INDICATORS

Interpretation

1. In this Schedule-

"LA10,18h" is the arithmetic mean noise level in dB(A) exceeded for 10% of each hour over the period 06:00 - 24:00 hours;

"LAeq,16h" is the equivalent continuous sound level in dB(A) that, over the period 07:00 - 23:00 hours, contains the same sound energy as the actual fluctuating sound that occurred in that period;

"LAeq,18h" is the equivalent continuous sound level in dB(A) that, over the period 06:00 - 24:00 hours, contains the same sound energy as the actual fluctuating sound that occurred in that period;

"LAeq,6h" is the equivalent continuous sound level in dB(A) that, over the period 24:00 - 06:00 hours, contains the same sound energy as the actual fluctuating sound that occurred in that period.

Road Traffic Noise

2. The supplementary noise indicators in relation to road traffic noise are-

(a) LA10,18h;

(b) LAeq,16h;

(c) Lday; and

(d) Levening.

Railway Noise

3. The supplementary noise indicators in relation to railway noise are-

(a) LAeq,16h;

(b) LAeq,18h;

(c) LAeq,6h;

(d) Lday; and

(e) Levening.

Aircraft Noise

4. The supplementary noise indicators in relation to aircraft noise are-

(a) LAeq,16h;

(b) Lday; and

(c) Levening.

Sŵn Diwydiannol a Sŵn Porthladdoedd

5. Y dangosyddion sŵn atodol mewn perthynas â sŵn diwydiannol a sŵn porthladdoedd yw-

(a) LAeq, 16h;

(b) Lday; a

(c) Levening.

Industrial Noise and Port Noise

5. The supplementary noise indicators in relation to industrial noise and port noise are-

(a) LAeq,16h;

(b) Lday; and

(c) Levening.

ATODLEN 4

rheoliad 15

Y LLEIAF O OFYNION Y CYNLLUNIAU GWEITHREDU

Cyffredinol

1.-(1) Rhaid i gynllun gweithredu-

(a) bodloni'r lleiaf o'r gofynion yn Atodiad V i'r Gyfarwyddeb; a

(b) cynnwys crynodeb, heb fod yn fwy nad deg tudalen o hyd, yn cwmpasu pob un o'r agweddau pwysig y cyfeirir atynt yn Atodiad V i'r Gyfarwyddeb.

(2) Wrth gymhwyso paragraff (1) mae unrhyw gyfeiriad yn Atodiad V i'r Gyfarwyddeb at-

(a) Erthygl 5 o'r Gyfarwyddeb i'w ystyried yn gyfeiriad at reoliad 4 o'r Rheoliadau hyn;

(b) Erthygl 8(7) o'r Gyfarwyddeb i'w ystyried yn gyfeiriad at reoliad 20 o'r Rheoliadau hyn.

SCHEDULE 4

regulation 15

MINIMUM REQUIREMENTS FOR ACTION PLANS

General

1.-(1) An action plan must-

(a) meet the minimum requirements of Annex V of the Directive; and

(b) contain a summary covering all the important aspects referred to in Annex V of the Directive, not exceeding ten pages in length.

(2) In applying paragraph (1) any reference in Annex V of the Directive to-

(a) Article 5 of the Directive is to be taken to be a reference to regulation 4 of these Regulations;

(b) Article 8(7) of the Directive is to be taken to be a reference to regulation 20 of these Regulations.

OFFERYNNAU STATUDOL

2006 Rhif 2629 (Cy.225)

DIOGELU'R AMGYLCHEDD, CYMRU

Rheoliadau Sŵn Amgylcheddol (Cymru) 2006

STATUTORY INSTRUMENTS

2006 No. 2629 (W.225)

ENVIRONMENTAL PROTECTION, WALES

The Environmental Noise (Wales) Regulations 2006

©℗ Hawlfraint y Goron 2006

Argraffwyd a chyhoeddwyd yn y Deyrnas Unedig gan The Stationery Office Limited o dan awdurdod ac arolygiaeth Carol Tullo, Rheolwr Gwasg Ei Mawrhydi ac Argraffydd Deddfau Seneddol y Frenhines.

© Crown copyright 2006

Printed and Published in the UK by the Stationery Office Limited under the authority and superintendence of Carol Tullo, Controller of Her Majesty's Stationery Office and Queen's Printer of Acts of Parliament.

W386/10/06 ON